

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 493 • Tachwedd 2018 • 50c

Partneriaeth Ogwen yn cymryd cyfrifoldeb am adeilad y Llyfrgell

Yn ystod mis Hydref daeth y cyhoeddiad fod menter gymdeithasol Partneriaeth Ogwen wedi cymryd cyfrifoldeb am gynnal adeilad y llyfrgell ym Methesda, gyda Cyngor Gwynedd yn parhau i staffio'r llyfrgell. Mae'n dilyn penderfyniad y Cyngor i gyflwyno arbedion yng nghyllideb y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn sgil toriadau yn yr arian mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan y llywodraeth i ddarparu gwasanaethau lleol.

Mae'r bartneriaeth wedi cytuno i arwyddo pryddles tair mlynedd ar adeilad y llyfrgell. Bydd Partneriaeth Ogwen yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad, gyda Chyngor Gwynedd yn parhau i redeg gwasanaeth llyfrgell o'r adeilad. Bydd oriau agor y llyfrgell yn parhau yn ddigyfnewid.

Mae Partneriaeth Ogwen yn bwriadu ceisio cynyddu defnydd o adeilad y llyfrgell ac maent yn awyddus i drafod efo unrhyw berson neu grŵp lleol sydd ag unrhyw syniadau am wneud y mwyaf o'r gofod. Mae'r ystafell lle'r oedd y llyfrgell blant bellach ar gael i'w llogi ar gyfer defnydd cymunedol.

Arddangosfa 'Aelwyd'

Mae'r ystafell gymunedol yn cael cryn dipyn o ddefnydd yn barod, yn gymysgedd o yrfaon chwist, arddangosfa gelf, cyfarfodydd ymgynghori a nosweithiau'r Clwb Camera. Y mis nesaf, bydd yr artist Sian Owen yn agor arddangosfa gelf 'Aelwyd' yn y Llyfrgell. Mae'r arddangosfa hon wedi ei ysbyrdoli yn llwyr gan gerfiadau llechi Dyffryn Ogwen ac edrychwn ymlaen i weld y gwaith ar waliau'r Llyfrgell. Bydd yr arddangosfa yn agor ar 23 Tachwedd ac yn rhedeg tan 25 Ionawr. Yn ogystal â'r arddangosfa ei hun, bydd Sian yn cynnal 2 weithdy celf a



gweithdy hanesion lleol yn seiliedig ar y cerfiadau llechi. Mae nifer o ddarluniau Sian yn seiliedig ar gerfiadau lleol megis cerfiad rhedyn o fferm y Sychnant, Llanllechid ac aelwyd enwog Tyddyn Dicwm ac edrychwn ymlaen i'w chroesawu i'r Llyfrgell. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â partneriaeth@ogwen.org



Arddangosfa 'Aelwyd'

GWASANAETH NADOLIG CYMUNEDOL

yng Nghapel Jerusalem

Nos Sul, Rhagfyr 16 am 7.00yh

Dewch i ddathlu'r Ŵyl yng nghwmni

Côr Meibion y Penrhyn

Côr y Dyffryn

Côr Ysgol Dyffryn Ogwen

ynghyd ag unigolion

Mynediad am ddim

Gwneir casgliad tuag at achos da Croeso cynnes i bawb

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com
- Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com
- Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
- Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com
- Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk
- Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com
- Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
- Owain Evans
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com
- Carwyn Meredydd
☎ 07867 536102
carwynnian@hotmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk
- Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

- Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Dewi A. Morgan.
- Y golygydd ym mis Rhagfyr fydd
Orina Pritchard,
7 Rhos y Nant,
Bethesda, LL57 3PP.
01248 602119
E-bost: orinapritchard@gmail.com
- Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 5 Rhagfyr
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 20 Rhagfyr**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.
- Dalier sylw:** nid oes
gwarant y bydd unrhyw
ddeunydd fydd yn
cyrraedd ar ôl y dyddiad
cau yn cael ei gynnwys.
- Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan
- Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

Dyddiadur
y Dyffryn

Tachwedd

- 16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
- 17 Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Ysgol
Dyffryn Ogwen am 10.00.
- 17 Ffair Nadolig Eglwys St. Ann a St.
Mair. Neuadd Goffa M. Llandygai.
11.00 – 2.00.
- 19 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.
- 21 Marchnad Nadolig Ogwen.
Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00.
- 23 Atgofion ar Gân. Canolfan Iechyd
Bethesda. 1.15 – 2.30.
- 24 Bore Coffi Nadolig NSPCC. Caffi
Coed y Brenin. 10.00 – 12.00.
- 24 Bore Coffi Cronfa Cancr y Prostad.
Festri Jerusalem . 10.00 – 12.00.
- 24 Ffair Arbed Ynni. Neuadd Ogwen.
9.30 – 2.00.
- 27 Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Llyfrgell Gymunedol Bethesda am
7.00.
- 28 Ffair Nadolig Capel Bethlehem
Talybont. Festri am 6.30.
- 29 Bingo Nadolig er budd Eglwys
Sant Tegai. Neuadd Talgai am 7.00

Rhagfyr

- 03 Merched y Wawr Tregarth. Noson
Cinio Nadolig.
- 04 Bore Coffi Nadolig. Ysgoldy Maes
y Groes, Talybont.
- 06 Sefydliad y Merched Carneddi.
Dathlu'r Dolig. Cefnfaes am 7.00.
- 07 Te Nadolig er budd Eglwys
Glanogwen. Gwesty'r Douglas.
2.00 – 4.00.
- 07 Atgofion ar Gân. Canolfan Iechyd
Bethesda. 1.15 – 2.30.
- 08 Marchnad Ogwen. Neuadd
Ogwen. 9.30 – 1.00.
- 08 Bore Coffi Ysgol Sul Jerusalem.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 10 Cymdeithas Hanes D. Ogwen.
Arwyn Oliver. Festri Jerusalem am
7.00
- 13 Cymdeithas Jerusalem.
Darlleniadau a Charolau. Festri am
7.00.
- 15 Bore Coffi Cylch Meithrin
Cefnfaes. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 16 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol.
Capel Jerusalem am 7.00
- 20 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.

Ffair Arbed Ynni

Sadwrn 24 Tachwedd 2018, 9.30-1.30,
Neuadd Ogwen, Bethesda

Cynhelir ail Ffair Arbed Ynni ym Methesda fis Tachwedd hwn, a chroesewir pawb i ddod draw am sgwrs ac i weld beth sydd ymlaen. Bwriad y ffair yw dod â phobl at ei gilydd sy'n frwdfrydig dros arbed ynni yn ein cartrefi, ein busnesau a'n bywydau. Trefnir y ffair gan brosiect Cyd Ynni sy'n gweithio gyda grwpiau ynni cymunedol yr ardal, a chlwb Ynni Lleol Bethesda.

Bydd nifer o stondinau lle gallwch gael cyngor am sut i arbed ynni ac arbed arian yr un pryd. Efallai eich bod yn gymwys i gael grant i wella eich system gwres, neu eich insiwleiddio, ac felly lleihau eich biliau. Dowch i siarad efo Nyth, neu efo'r Wardeiniaid ynni. Cewch wybod gan Ddŵr Cymru am wahanol ddisgownts neu ffyrdd i dalu llai.

Bydd Swyddog Cynladwyedd o Fusnes Cymru yn dod yn arbennig i siarad efo busnesau ardal Bethesda, gan drafod posibilïadau rhedeg busnes yn fwy effeithlon, yn nhermau ynni gymaint ac o ran adnoddau eraill. Os oes gynnwch chi fusnes bach neu fwy, a bod gennych chi ddiddordeb i siarad efo rhywun am yr hyn yr hoffech ei wneud, neu am gael syniadau newydd, dowch i gael sgwrs. A dywedwch wrth fusnesau eraill y fro!

Os hoffech chi wybod mwy am yr hyn

sy'n digwydd yn lleol gyda chynlluniau ynni cymunedol (neu hyd yn oed yn awyddus i gymryd rhan), cewch siarad efo un o gynrychiolwyr Cyd Ynni, Ynni Cymunedol Cymru, Ynni Lleol ac eraill.

Hefyd cewch wybodaeth am osod ynni gwyrdd yn eich cartrefi eich hun, a bydd gweithgareddau yn cynnwys gwnïo nadroedd drafft neu weld efo camera isgoch lle mae'r gwres yn dianc o adeiladau'r Stryd Fawr!

Gobeithiwn hefyd ddechrau Caffi Trwsio - cyfle i ddod â phethau i'w trwsio sydd wedi colli eu sglein neu sydd wedi torri. Diolch i lu o wirfoddolwyr sy'n dod i rannu eu sgiliau trwsio! Cewch ddod â dillad, beics, dodrefn, offer trydanol, ffonau ayb., a byddan nhw'n rhoi cynnig ar eu gwneud i weithio eto, o bosib gyda'ch help! Mae yn gyfle arbennig i fusnesau lleol sy'n gallu trwsio pethau i godi eu proffil. A bydd llai o stwff yn mynd i'r tomennydd sbwriel!

I ychwanegu at yr hwyl, bydd 'na ffeirio dillad yn digwydd yr un pryd, a gallwch ddod â dilledyn neu ddau a mynd i ffwrdd efo un neu ddau arall! Mae i gyd yn helpu defnyddio pethau mor hir â phosibl, lleihau gwastraff, rhannu'r hyn sydd gennym ni, a chyfarfod pobl o'r un anian.

Yn bennaf oll, mae'n gyfle gwych i gyfarfod pobl eraill sydd isio dysgu sut i fyw yn fwy effeithlon, i rannu tips a phrofiadau, ac i gael syniadau newydd dros banad a sgwrs. Dowch yn llw!

Rhoddion i'r Llais

- £25.00 Er cof am fy annwyl wraig, Sheila, a mam Gwenfair, Bryn a Heulwen Mai, oddi wrth Emlyn, Preswylfa, Capel Curig.
- £10.00 Er cof annwyl am y diweddar Mr. Gwilym Williams, Maes Caradog, oddi wrth y teulu.

Diolch yn fawr

Archebu trwy'r post

- Gwledydd Prydain - £22
- Ewrop - £30
- Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Caffi Trwsio

Oes gennych chi hoff ddilledyn sydd efo twll, neu feic sydd angen sylw? Neu efallai nad ydi'ch ffôn yn gwneud be ddylai fo wneud? Oes na gadair sigledig yn eich tŷ, neu declyn sydd wedi stopio gweithio?

Wel, dyma i chi gyfle! Byddwn yn dod at ein gilydd mewn caffi trwsio i drïo arbed yr holl bethau hyn rhag y domen, a rhoi cynnig ar eu trwsio neu wella. A gobeithio bydd modd inni ddefnyddio ein hoff bethau am llawer hirach eto!

Mae trefi a chymunedau ar draws y byd yn cynnal digwyddiadau tebyg. Lleihau

faint dan ni'n taflu i ffwrdd ydi un bwriad, rhannu a dysgu sgiliau un arall, a rhoi llwyfan i fusnesau sy'n trwsio pethau yr un mor bwysig.

Bydd y caffi trwsio cyntaf yn rhan o Ffair arbed ynni yn Neuadd Ogwen ddydd Sadwrn 24 Tachwedd 2018, o 9.30 tan 1.30. Dowch â'ch hen ffefrynau neu unrhyw beth sydd angen sylw, a bydd gwirfoddolwyr efo gwahanol sgiliau yn gwneud eu gorau glas i'ch helpu i'w cael nhw i siâp eto. Os hoffech chi gymryd rhan yn yr hwyl, hyd yn oed gwell!

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Tachwedd

- £30.00 (101) Bethan Griffiths, Bro Emrys, Talybont.
- £20.00 (117) Gwenda Bowen, Stryd Hir, Gerlan.
- £10.00 (18) Jennie Jones, Bryn Caseg, Bethesda.
- £5.00 (119) Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Rachub.

Gwobrau Blynnyddol

- £75.00 (6) Joseph D. Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
- £30.00 (117) Gwenda Bowen, Stryd Hir, Gerlan.
- £10.00 (101) Bethan Griffiths, Bro Emrys, Talybont.

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Ysgol Tregarth

Paid Cyffwrdd Dweud

Unwaith eto eleni cawsom ymweliad gan dîm Paid Cyffwrdd Dweud yn ymdrin â pheryglon cyffwrdd meddyginiaethau a sylweddau o gwmpas y cartref a’r ysgol. Roedd yn berfformiad lliwgar a llawn hiwmor ac roedd ymateb y disgyblion yn arbennig.

PC Owain Edwards

Cafodd dosbarthiadau CA2 ymweliad gan PC Owain Edwards ar Hydref 3ydd. Cyflwynodd wersi i ddosbarthiadau Ogwen a Ffrydlas yn canolbwyntio ar sylweddau, alcohol a chyffuriau. Cafwyd gwrandawriad ac ymateb da gan y plant oedd yn awyddus i ddysgu.

Hyfforddiant Seiclo

Yn ystod wythnos gyntaf Hydref dros gyfnod o ddeuddydd, derbyniodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 hyfforddiant seiclo Lefel 1 a 2. Gweithiodd pob un hyd eithaf ei allu, ar iard yr ysgol ac allan ar y lôn. Llwyddodd y rhan fwyaf ohonynt i gyrraedd gofynion lefel 1 a lefel 2 a derbyn tystysgrifau i nodi hyn. Llongyfarchiadau iddynt. Braff yw gwybod y bydd ein disgyblion yn ddiogel ac yn cadw rheolau wrth feicio.

Tîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen

Fore Llun Hydref 8fed, cafwyd ymweliad arbennig iawn gan aelodau o Dîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen. Cyflwynwyd gwybodaeth am eu gwaith, eu hoffer, ynghyd â’r nifer a’r mathau o ddamweiniau y maent yn delio â nhw. Yn ogystal, cafwyd cyfle i gyffwrdd, a theimlo peth o’r offer. Yn sicr, llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth o’r gwaith a wnânt, a thynnu sylw at y ffaith mai gwirfoddolwyr yw pob un ohonynt. Roedd y plant, fel ninnau, yn gwerthfawrogi eu hymdrech a’u hymroddiad, a diolchwyd iddynt yn gynnes am gyflwyniad cofiadwy.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Gwahoddwyd ni gan y



Tad John Matthews i ymuno mewn gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys y Gelli, bnawn Iau, Hydref 25ain. Cerddodd ddisgyblion CA2 i’r gwasanaeth a chymerwyd rhan gan amryw o’r plant mewn darlleniadau a gweddïau. Braff yw cael cyfle i ddiolch, a gwerthfawrogyd y gwahoddiad yn fawr. Fel rhan o’r gweithgareddau Diolchgarwch, trefnodd y Cyngor Ysgol i gasglu tuag at Fanc Bwyd a drefnir gan y Gadeirlan ym Mangor. Diolch i’r disgyblion a’u rhieni am eu haelioni yn cefnogi yr elusen.

Casglu Sbwriel

Daeth cais gan y Cyngor Cymuned i ddisgyblion ymuno mewn gweithgaredd codi sbwriel a thacluso ym Mhentref Tregarth. Ymunodd aelodau’r Pwyllgor Eco gyda Mr Dafydd Owen o’r Cyngor Plwyf brynhawn dydd Gwener, Hydref 26ain i gasglu sbwriel yng nghyffiniau Bro Syr Ifor. Bydd y trigolion yn siŵr o werthfawrogi eu hymdrechion.

Ymweliad arbennig

Cafodd Dosbarth Idwal brofiad arbennig iawn fel rhan o’r thema ‘Fy ffrindiau a fi’, sef cael cwmni babi go iawn yn y dosbarth! Uchafbwynt y bore oedd cael gweld Tomos yn cael bath ac roedd yn hogyn bach arbennig o dda. Rydym yn edrych ymlaen yn barod iddo ddod i’r ysgol pan fydd o wedi tyfu! Roedd y gwaith hefyd yn

berthnasol i’r Wythnos Iechyd a Lles, sef pwysigrwydd ymolchi a chadw’n lân. Diolch o galon i Carol, mam Tristan am ddod â Tomos i’r ysgol ac am roi profiad arbennig i’r disgyblion. Diolch yn fawr!

Gŵyl Rygbi

Cynhelir gŵyl rygbi tag yng Nghlwb Rygbi Bethesda gan y swyddog rygbi newydd Rhys Owen. Bu Rhys yn dod draw

i’r ysgol i wneud sesiynau rygbi gyda blwyddyn 5 a 6 bob prynhawn Iau dros y chwe wythnos diwethaf er mwyn cael y plant yn barod tuag at yr ŵyl. Rhannwyd y plant i dimau gwahanol er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfarfod pobl newydd a gwneud ffrindiau. Braff oedd gweld gymaint â 150 o blant o’r dalgylch yn cymryd rhan a chydweithio gyda’i gilydd. Dywedodd rhai o’r plant ar ddiwedd y gemau eu bod yn awyddus i ymuno gyda Chlwb Rygbi Bethesda sy’n adborth grêt i ddangos pa mor llwyddiannus oedd y diwrnod.

Wythnos Iechyd a Lles

Yn ystod yr wythnos olaf o’r tymor bu’r ysgol gyfan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol i ddysgu am bwysigrwydd iechyd a lles. Ar lawr dosbarth bu’r plant yn dysgu am sut i fyw bywyd iach gan edrych ar fwydydd, cwsg, ymarfer corff a.y.b. Dros yr wythnosau diwethaf mae’r pwyllgor





iechyd a lles wedi bod yn hynod o brysur yn meddwl am syniadau, yn trefnu ac yn cynnal gweithgareddau amrywiol. Llwyddodd y pwyllgor i agor siop ffrwythau yn ystod yr wythnos er mwyn hybu bwyta'n iach, roedd y siop yn boblogaidd iawn ymysg y disgyblion. Yn ogystal, eu syniadau nhw cafodd ei ddefnyddio i greu'r

amserlen yn ystod yr wythnos
gan ddewis gweithgareddau
megis hoci, rygbi, yoga, rhedeg
milltir bob dydd, beicio a
phêl-rwyd. Y weithgaredd
gafodd yr adborth orau oedd
y zorbs, diolch yn fawr iawn
i'r tîm chwaraeon a roddodd
yr adnoddau i'r ysgol am y
diwrnod. Ewch draw i safle
trydar yr ysgol er mwyn gweld
clipiau fideo gwerth chweil!



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes**
600853 (nev_hughes@btinternet.com)



Siân Gwenllian
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch
AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinaltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

 @CynghorwyrDyffrynOgwen

 @PlaidCymruOgwen

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Profedigaeth

Cydymdeimlwn gydag Anora Rigby a’r bechgyn, Lôn y Bedw, Coed Mawr, Bangor, yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid, sef Richard Stephen Rigby fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 15 yn 82 mlwydd oed. Magwyd Anora yn Erw Faen ac mae’n chwaer i Haydn Davies, Hen Berllan, Dob, Tregarth.

Penblwydd

Roedd Goronwy Roberts, Bro Syr Ifor yn dathlu pen-blwydd arbennig ym mis Hydref. Llongyfarchiadau Goronwy, a hefyd Sulwen ei wraig, fydd yn dathlu ei phen-blwydd hi mis Tachwedd.

Priodas

Llongyfarchiadau i Bethan a Dylan Roberts ar achlysur eu priodas ar Medi 7fed yng Ngwesty Victoria, Llanberis. Maent yn byw yn Ffordd Tanrhiw gyda’u merch Nel.

Pêl-droed

Ar 7fed Hydref cynhaliwyd gem bêl-droed rhwng ‘Tregarth Tigers’ ac ‘Eddie’s Eagles’ yng nghae chwarae Tregarth i godi arian at ymchwil Alzheimer, yn enw Essie Feaver o Dregarth a gollodd ei fywyd i’r salwch yn 2014. Trefnwyd y diwrnod gan ei deulu a ffrindiau a chodwyd y swm o £1600 at yr achos.

Clwb Cant Canolfan Tregarth

Mis Medi
Rhif 28, Laura Jones Fferm Dinas £15
8 Margaret Jones £10

Mis Hydref
14 Valerie Hayward £15
10 Rhys Llwyd £10
37 Angharad Williams £5

Capel Shiloh, Tregarth

Anfonwn ein cofion at ein blaenor hynaf yn Shiloh, sef Mrs Edith Hughes, 5 Erw Faen, sydd wedi symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon. Cofion annwyl atoch Edith.

Drws Agored

Mae drws agored bob bore Gwener yng Nghapel Shiloh ar gyfer unrhyw un hoffai droi i mewn am sgwrs, cwmni a phaned, rhwng 10 o’r gloch a hanner dydd. Bore Gwener, Hydref 26, braf oedd croesawu Mathew Parry a Lynne atom a gweld ei fod yn gwella’n raddol wedi’r ddamwain ddaeth



Bore Gwener, Hydref 26, roedd yn braf croesawu Mathew Parry a Lynne i’r bore agored yn Shiloh. Yn ystod y bore rhoddwyd cyfraniad i’r gronfa a sefydlwyd i roi cymorth iddo ef a’r teulu yn dilyn y ddamwain ddaeth i’w ran wrth chwarae rygbi

i’w ran wrth chwarae rygbi i dîm Pwllheli. Mae Mathew a Lynne yn byw yn Erw Faen a cafwyd cyfle i gyfrannu at y Gronfa a gychwynnwyd er mwyn ei helpu ef a’r teulu yn ystod yr amser caled yma iddynt fel teulu. Diolch i’r rhai ffyddlon sydd yn galw i mewn am baned yn rheolaidd ar fore Gwener am eu cyfraniadau.

Dathlu’r Diolchgarwch

Bu dwy oedfa i ddathlu’r Diolchgarwch yn Shiloh eto eleni. Bu’r oedfa gyntaf Nos Sul, Hydref 14, dan ofal y Parchedig Dewi Morris, Porthmadog, gynt o Dregarth, gyda rhai o ieuenctid y capel yn cyfrannu i’r gwasanaeth. Diolch iddynt am eu parodrwydd i gymeryd rhan eto eleni ac i Dewi am ddod atom gyda neges bwrpasol iawn.



Ieuenctid Shiloh a’r Parchedig Dewi Morris, Tregarth gynt, yng Ngwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 14.

Nos Lun, 15 Hydref, sef y diwrnod traddodiadol yma yng Ngwynedd ar gyfer oedfa y Diolchgarwch, hyfryd oedd croesawu Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy, Mynydd Llandygai gynt, i arwain yr addoliad. Cawsom wasanaeth bendithiol iawn yn ei gwmni a chynulleidfia deilwng i wrando ar ei neges. Diolch iddo yntau am ei gyfraniad.

Brysiwch wella

Brysiwch wella Wynne Roberts, Bryn Difyr, wedi damwain ddaeth i’w ran yn ddiweddar.

Gwasanaethau Shiloh

Oedfa am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol
Tachwedd 18: Philip Barnett
Tachwedd 25: Ellie Jones, Coed y Parc
Rhagfyr 2: Richard Gillion
Rhagfyr 9: Gwynfor Williams, Caernarfon
Rhagfyr 16: Dafydd Hughes, Caernarfon
Rhagfyr 23 am 4 o’r gloch
Oedfa Deulu y Nadolig gyda Richard Gillion
Rhagfyr 30: Gwyndaf Jones, Bangor

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Tachwedd 18 Boreol Weddi 9:30
Tachwedd 25 Cymun Bendigaidd 9:30
Rhagfyr 2 Carolau Adfent 5yp
Rhagfyr 9 Cymun Bendigaidd 9:30
Rhagfyr 16 Boreol Weddi 9:30

Pob gwasanaeth am 9:30yb heblaw am 2 Ragfyr sef Sul Adfent pryd mae’r gwasanaeth am 5yp a bydd lluniaeth tymhorol ar ôl y gwasanaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu’r diweddar Miss Nesta Hughes, Pandy. Bu Nesta yn gweithio yn llyfrgell y Brifysgol ym Mangor ac wedyn swyddfa Crosville. Roedd yn organyddes Eglwys Gelli am dros hanner can mlynedd ac yn 2011 derbyniodd dystysgrif teilyngdod mewn cerddoriaeth eglwys gan Archesgob Cymru. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys St Cross o dan ofalaeth Parch J. Matthews.

Rhifyn Rhagfyr

Deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 5 Rhagfyr
os gwelwch yn dda.
Plygu nos Iau, 20 Rhagfyr,
yn Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog
Trefn y Gwasanaethau (am 2.00yp.)
Tachwedd 18: Teulu Fferm y Royal.
Tachwedd 25: Parchg. Ifor Jones.
Rhagfyr 2: Parchg. Cledwyn Williams.
Rhagfyr 9: Tomos Jones, Garth.
Rhagfyr 16: Parchg. Gwyndaf Jones.
Croeso cynnes i bawb.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd
Llandygái ☎ 600744

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Mrs. Janet Williams, sydd wedi colli ei mam yn Awstralia. Mam, a nain i Rheinallt a Rhys. Bydd colled fawr i'r teulu i gyd. Rydym yn meddwl amdanoch.

Diolch
Dymuna Myrddin ac Einir a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur colli mam Einir, sef Mrs. Mary Gweneth Griffith. Mam, nain a hen nain annwyl. Diolch i'r doctoriaid, nyrsus a'r gofawlyr am eu gofal amhrisiadwy. Diolch hefyd am y rhoddion o £300.00 a dderbyniwyd er cof amdani tuag at Gronfa Alzheimer.

Eglwys St. Ann a St. Mair
Sul 1af a'r 3ydd: 9.30y.b. Boreol Weddi 2ail a'r 4ydd: 9.30y.b. Cymun Bendigaid.

Gwasanaethau Gwyl y Geni:
Rhag. 16eg: 9.30y.b. Gwasanaeth "Naw Llith a Charol".
Rhag. 24ain: 11.30 y.h. Dydd Nadolig Crist - Cymun Bendigaid
Rhag. 30ain: Cymun Bendigaid
(Gwasanaeth ar y cyd: Am fwy o fanylion gweler yr hysbysfwrdd)

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau dros yr Ŵyl.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth drwy gydol 2018 a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

FFAIR NADOLIG YR EGLWYS
Sadwrn, 17eg Tachwedd
11 - 2 p.m.
yn y **NEUADD GOFFA**, Mynydd Llandygai. Bydd amrywiaeth o stondinau yn ôl yr arfer, lluniaeth ysgafn dros yr awr ginio a hefyd bydd Siôn Corn yn ymweld â ni - cofiwch ddod a'r plant i'w weld!

Ysgol Abercaseg



Disgo Gwisg Ffansi
Cafwyd hwyl yn dawnsio disgo cyn cau am wyliau hanner tymor. Roedd pawb yn edrych yn hynod o frawychus, ond yn ddigon o sioe!

Blwyddyn 2 yn ymweld ag Ysgol Pen-y-bryn
Cafodd plant Blwyddyn 2 gyfle i ymweld â gwasanaeth diolchgarwch Ysgol Pen-y-bryn. Bu Blwyddyn 3 yn cynnal y gwasanaeth. Diolch yn fawr am gael y cyfle - roedd yn brofiad gwych i blant Blwyddyn 2.

Clybiau Creadigol a Chlybiau Darllen
Cafwyd sesiwn olaf lwyddiannus o glybiau Creadigol a Chlybiau Darllen. Cafodd

rhieni Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 gyfle i weld y plant yn cyfleu cerddoriaeth drwy symudiadau'r corff. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

Ffarwelio
Ffarwelio am y tro â Miss Roberts a fydd yn ymadael dros dro ar gyfnod mamolaeth. Pob dymuniad da iddi!

Diwrnod Shwmae Su'mae
Trefnodd Dreigiau Caseg brynhawn o weithgareddau i gyd fynd â Diwrnod Shwmae Su'mae. Cafodd y plant gyfle i ddefnyddio apiau Cymraeg, dawnsio i gerddoriaeth, gweld ffilmiau Cymraeg ynghyd â lliwio posteri.



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Llongyfarch

Derbyniodd y canlynol wobrau yn Noson Wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar: Kate Davies, Osian Rowlands, Megan Williams, Adah Florence, Gwen Williams, Ela Kennedy, Georgio Brown, Steffan Jones a Sioned Davies. Llongyfarchiadau i chi i gyd, mae’n braf clywed am eich llwyddiant.

Cydymdeimlo

Yn sydyn, wedi cystudd byr bu farw John David Jones o Drawsfynydd, brawd yng nghyfraith Donna ac Ieuan, Gwelfryn, ac ewythr hoff Elliw ac Ifan. Anfonwn ein cofion hefyd at ei briod, Gwenan, a’r teulu.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri, gynt o Plas Ogwen a Hiraef, Bangor, yn 93 oed bu farw Glenys Roberts, mam annwyl Carol a mam-yng-nghyfraith Dafydd Davies, Caeau Gleision. Roedd yn nain, hen nain a hen hen nain i’w hwyrion a’r wyresau a chydymdeimlwn â chi i gyd.

Hefyd ar ôl gwaeledd byr bu farw Glenys, cymar Martin, nai Mair Roberts, Hafod Lon. Mae sawl un ohonom yn cofio Martin a Glenys yn dod yn wythnosol i Rhiwlas i werthu ffrwythau a llysiau. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei gefndryd Alwyn a Gwynfryn a’r cyfnitherod, Eurwen a Nia ac at ei fodryb Mai Williams.

Aduniad Ysgol Waun

Ar ddiwrnod gwlyb a stormus daeth nifer dda o bell ac agos ynghyd i’r Neuadd i hel atgofion a chael te bach. Teithiodd Dilys, 1 Bro Rhiwen gynt, o Llundain a’i brawd Owie o Sir Gaer. Roedd yn braf cael sgwrsio am ein dyddiau yn yr ysgol a darllenodd Ann farddoniaeth, Cynefin, a ysgrifennwyd gan ei brawd, Gwilym, yn sôn am sawl lle oedd yn boblogaidd gennym pan yn ifanc. Roedd yn braf clywed am yr hen neuadd hefyd a’r gweithgareddau niferus a gynhalwyd yno a’r diweddar Alun Williams yn arwain y noson bob amser. Cafwyd raffl a chyflwynwyd rhodd o £107 i’r Neuadd. Mae sawl un wedi holi pryd mae’r cyfarfod nesaf!

Dyma englyn i’r Hen Neuadd eto gan Gwilym Jones, Rhes Uchaf gynt.
Aelwyd yw hon i adloniant, – i’n bro
Mae’n brawf o’n diwylliant,
Ynddi cawn swyn dawn ar dant
A mynych adlais mwyniant.

Rhag hysbyseb

Y mae pwyllgor y Neuadd wedi trefnu



Llongyfarchiadau i Martha Parry-Owen a Mark Thomas a briododd yn ddiweddar. Dyma lun o’r ddau gyda Ron Parry, taid Martha

Noson o Garolau yng nghwmni rhai o aelodau Seindorf Arian Deiniolen. Nodwch y dyddiad – **Nos Iau Rhagfyr 13 am 7 o’r gloch.** Dewch atom i’r Neuadd i fynd i ysbryd yr Ŵyl.

Gwellhad

Derbyniodd Mrs Irene Jones lawdriniaeth ar ei phen-glin yn Wrecsam. Pob dymuniad da Irene am wellhad buan.

Merched y Wawr, cyfarfod Hydref 9fed

Croesawyd pawb i’r cyfarfod a chafwyd ymddiheuriadau gan Annes a Margaret ac roeddem yn falch o weld Carol yn edrych yn dda ar iddi syrthio. Bu Linda a Iona yn y Pwyllgor Rhanbarth a chyfeiriwyd at sawl peth, yn arbennig y pwyslais ar y rheoliadau newydd ynglŷn â data. Cawsom y manylion am sawl cystadleuaeth, cerdyn Nadolig 2019 a sioe Llanelwedd. Cytunwyd i gael ein cinio Nadolig ym Melin Seiont a mynd yno amser cinio. Linda oedd yn llywyddu a cyflwynodd Carys, ein cyd-aelod, a Cynrig – dau sy’n hoff iawn o deithio. Eleni bu’r ddau ar daith i Batagonia ond gan ymweld â Brasil i ddechrau ac yna symud ymlaen i’r Wladfa. Cawsom sgwrs hynod o ddiddorol, a sleidiau i gydfynd â’r cynnwys. Wedi dod adref bu Cynrig yn ymchwilio i hanes rhai o’r pobl a ddysgodd amdanynt. Un ffaith ddiddorol oedd mai gwraig â’i gwreiddiau o Rhiwlas a agorodd y “Tŷ Te” cyntaf yn y Wladfa.

Diolchwyd i Cynrig a Carys am noson mor ddifyr ac addysgiadol.



Garddio

Yn yr ardd flodau

Nid yw’n rhy hwyr i blannu cennin Pedr. Rŵan yw’r amser i blannu tiwlip. Gallwch blannu hyacinth mewn potyn ar gyfer y gwanwyn. Plannwch goed rhosod.
Codwch y dahlia, gladioli a’r begonia.
Cuddiwch beth o’r celyn sydd ag aeron arnyn nhw, rhag i’r adar gael y cyfan cyn y Nadolig.

Yn yr ardd llysiau

Codwch y pannas, ond bydd eu blas yn well ar ôl iddyn nhw gael barrug. Gallwch rannu riwbob wedi iddyn nhw gysgu dros y gaeaf. Dyma’r amser i wasgaru tail dros y gwely llysiau er mwyn iddo bydru’n dda dros y gaeaf.

Cyffredinol

Gallwch blannu mafon rŵan er mwyn cael cnwd blasus yn yr haf. Edrychwch ar y ffrwythau sydd wedi eu storio, rhag ofn bod rhai drwg yn eu canol. Gallwch dorri ychydig ar y coed afalau a’r gellyg.

Y Dyddiadur toriadau (5)

Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel ‘Y Cloriannydd’ wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)

Y Cyngor Plwy

Mae’n amlwg bod y gohebydd yn dipyn o wag ac yn hoff o dynnu coes. Yn yr adroddiad o’r Cyngor Plwy, a lynwyd yn y dyddiadur ar gyfer Ionawr 1933, mae’n dannod i’r Cyngor Dosbarth eu bod wedi anfon cais ar lafar i’r Cyngor Plwy am eu caniatâd i gael ymadael â gwastraff yn y gors (‘dympio’ yw’r term a ddefnyddir). Atebwyd y Cyngor Dosbarth trwy ofyn am lythyr ysgrifenedig ganddynt yn gofyn caniatâd y Cyngor Plwy gan ychwanegu eu bod am ofyn faint oedd y Cyngor Dosbarth am dalu am y caniatâd hwnnw ac ychwanegir y sylw canlynol.


‘Rhyfedd disgwyl i ni brynu tir i rai sydd yn gwario miloedd o bunnau a’i osod iddynt yn ddi-dâl’.

Mae’r coegni neu’r dôn sarcastig yn parhau pan ddywed;

‘Tybed yr hoffent inni wneud rhywbeth arall tra bom (sic) wrthi - adeiladu tai, neu drefnu cynllun dŵr i’r ardal? Open Sesame! Oes ryfedd yw hon.’

Medd neu Fetheglin

Ar ôl yr adroddiad o’r Cyngor Plwy cawn erthygl fer o dan y pennawd uchod. Dechreuau’r erthygl drwy sôn am ddosbarth Cynan ar y ddrama yn trefnu rhoddi perfformiad o ‘Tri Chryfion Byd’ gan Twm o’r Nant (gweler Pennod 2)



Uchod gwelir y ddwy dudalen y dyfynnwyd ohonynt ym mhenodau 4 a 5.

ar derfyn y tymor ac yn y drafodaeth deuwyd ar draws y gair “medd”.

‘Diod ydyw a wneid o fêl a gwyddis y byddai’r Frenhines Elisabeth yn mynnu cael cyflenwad ohono bob blwyddyn o Blas Penmynydd - hen gartref y Tuduriaid ym Môn, a thystiai hi na cheid ei hafal yn un wlad arall yn y byd.’

Ychwanega’r gohebydd; ‘Gwyddom hefyd i’r bardd Southey yn “The Doctor” ddweud hyn; ‘I have Welsh blood in my veins And metheglin in my blood,

And I am not the worse for the ingredient.”

Mae’r erthygl wedyn yn adrodd fel yr aeth un o ddisgyblion y dosbarth at y Dr Tom Richards y ‘chwilotwr dihafal’ i ymholi am ‘recipe’ ynghylch sut i’w wneud. Ar ôl ymchwilio tipyn mae’r Dr Tom Richards yn darganfod fod y rysâit i’w chael ym mhapurau Syr John Wynn o Wydir a bod y rheiny i’w gweld yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Anfonwyd yno amdani.

Dywed yr adroddiad bod aelod neilltuol wedi addo dilyn y cyfarwyddiadau hynny a dywedir gyda’r tafod yn y boch,

“ac os torrir rhai ohonom allan o’r seiat, arno ef yr erys y cyfrifoldeb, fo a Southey y bardd. Gofalwn na chaiff y prifardd (Cynan!) mo’i brofi; arferai’r beirdd ef i ystwytho eu tafodau ac ymfflamychu ers talwm, ond nid oes ei angen arno ef.”

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Ysgol Pen-y-bryn



Gall Genod Gwynedd (GGG)

Dyma griw o ferched o flynyddoedd 4 a 5 yn mwynhau diwrnod yn dathlu chwaraeon i ferched ar 10 Hydref. Cafwyd sgysiau gan rhai o ferched mwyaf llwyddiannus a dylanwadol y byd chwaraeon yng Nghymru, yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan mewn llawer o chwaraeon a gemau gwahanol, gan gynnwys y wal ddringo, peli 'Zorbs,' beicio, golffio, rhwyfo a dawnsio! Pawb wedi mwynau er gwaetha'r glaw!

Ymweliad â chapel ac eglwys

Cafodd Blynyddoedd 3 a 4 brynhawn difyr iawn yn ymweld ag Eglwys Glanogwen a Chapel Jerwsalem. Roedd yn ddiddorol gweld y gwahanol nodweddion sydd i'w cael mewn eglwys a chapel. Diolch i'r Curad Christina McCrea a Mr Walter Williams am roi eu hamser.

Codi Arian

Bu blynyddoedd 3 a 4 yn brysur iawn yn trefnu gweithgareddau er mwyn codi arian at elusen Macmillan. Da iawn bawb a



Blynyddoedd 3 a 4 ar gopa'r Foel

ymdrechodd yn galed i gerdded i fyni'r Foel ar ein taith gerdded noddedig, a diolch i deulu a ffrindiau am ymuno â ni. Roedd pawb yn barod am baned a chacen yn y pnawn coffi a oedd wedi cael ei drefnu ar ôl cyrraedd yn ôl yn yr ysgol. Cyfanswm yr arian a gasglwyd oedd £1335.61. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Fferm Blaen y Nant

Fel rhan o'u gwaith thema aeth blynyddoedd 3 a 4 i fferm Blaen-y-Nant i ddysgu mwy am ffermio. Cafodd pawb brynhawn bendigedig yn cwrdd â'r geifr, defaid, moch, ceffylau, lamas a'r byffalos sy'n cael eu cadw yno. Diolch i Gwyn Thomas am y croeso a'r holl wybodaeth diddorol am ei waith ar y fferm.



Dathlu Wythnos Shwmae Su'mae?

Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cyngor Ysgol, penderfynwyd ein bod eisiau ymestyn Diwrnod Shwmae Su'mae i wythnos gyfan ym Methesda. Bu dosbarth Elidir a Glyder wrthi'n ddiwyd yn cynllunio poster i hysbysebu'r wythnos gan annog trigolion y Dyffryn i gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg. Cafodd y plant groeso cynnes gan y busnesau lleol, a diolch yn fawr iddynt am gefnogi ein hymgyrch! Yn ôl y cyfryngau cymdeithasol, bu'n llwyddiant! I ddathlu diwrnod Shwmae Su'mae ym mlwyddyn 3 a 4 buom yn ymarfer cyfarch ein gilydd a chychwyn sgwrs yn y Gymraeg, yn ogystal â gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg. Dyna oedd hwyl!!



Ysgol Llanllechid

Cyflwyniadau Diolchgarwch

Diolch i bawb a ddaeth draw i'r ysgol i gefnogi'r plant, wrth i bob un ohonynt berfformio yn ein cyflwyniadau Diolchgarwch ar y dydd Gwener cyn yr hanner tymor. Diolch arbennig i'r Parchedig John Pritchard am ddod atom i ymuno hefo ni. Cafwyd gwledd, yng ngwir ystyr y gair, o'r plentyn ieuengaf yn y Meithrin, yn nosbarth Ms Rhian Haf, i'r hynaf yn nosbarth Mr Stephen Jones. Perfformiodd pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen gydag arddeliad, i neuadd lawn dop. Yna, daeth hi'n dro yr Adran Iau, gan ddechrau gyda Blwyddyn 3, sef dosbarth Mrs Marian Jones, a fu'n cyflwyno un o gymeriadau mwyaf lliwgar yr ardal, sef Robat Jôs Gwich. Cafwyd cyflwyniad ardderchog, ar lafar ac ar gân, o hynt a helynt y cymeriad doniol yma a bu'r plant yn actio ei hanes yn gweithio yng Ngorsaf Rheilffordd Bethesda, ac yn cario sacheidiau trwm o flawd ar ei gefn, yr holl ffordd i Fynydd Llandegai! Clywyd amdano'n pregethu yng ngheg Lôn Pab, yn erbyn y capelwyr ac o blaid eglwyswyr, cyn iddo syrthio o ben to Capel Mawr Bethesda! Gwelwyd y plismyn lleol yn ei lusgo i'r ddalfa, wedi iddo dorri ffenest siop yn y stryd, a hynny'n hollol fwiadol ar ei ran; roedd Robat Jôs eisiau cinio Nadolig blasus, a gwyddai'r union le i gael hwnnw sef, yn y carchar! Ac felly y bu! Diolch yn fawr i Mrs Helen Williams am gyfeilio. Daeth hi'n dro y disgyblion hŷn wedyn, a Mrs Delyth Humphreys yn canu'r piano'n feistrolgar! Côr anferthol yn canu mewn harmoni, nerth esgyrn eu pennau a gafwyd, nes oedd ambell un o'r gynulleidfa o dan deimlad! Bore hyfryd, oedd yn gwneud i ni sylweddoli y frain aruthrol o gael gweithio gyda'n plantos! Diolch i bawb!

Ffair Ysgol Llanllechid

Diolch o waelod calon i bawb a weithiodd mor galed eleni i sicrhau Ffair Ysgol lwyddiannus iawn. Gwelwyd tîm anhygoel o bobl clên a charedig yn gweithio eu gorau glas i sicrhau y fath lwyddiant. Roedd cymaint ohonoch yn fodlon rhoi eich amser prin ar ddydd Sadwrn i gynorthwyo Ysgol Llanllechid, ac mae'n dyled a'n diolch yn fawr i chi un ac oll. Cafwyd cefnogaeth anhygoel a chymorth heb ei ail gennych fel rhieni a ffrindiau'r ysgol mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Yn y lle cyntaf, diolch yn fawr i bawb sy'n mynychu'r cyfarfodydd ac i chi a fu'n rhoi'r cynlluniau yn eu lle ar gyfer y diwrnod mawr. Mae gwaith pob

aelod o'r pwyllgor i'w ganmol, ac mae'n deg dweud na fyddai ein Cymdeithas Rhieni/Athrawon yn llwyddo heb eich ymroddiad a'ch gwaith caled. Diolch i bawb a weithiodd mor galed yn y gegin - rydych yn gwybod pwy ydych chi! Pawb am y cyntaf i brynu'r cacenau hufen a'r byns! Roedd pawb wedi gwirioni hefo'r holl ddanteithion, a mawr yw ein diolch i bob un ohonoch am sicrhau gwledd i bawb a ddaeth draw. (Anodd i mi ddechrau eich henwi i gyd!) Felly hefyd, y barbeciw! Syniad gwych a chinio blasus! Diolch yn fawr. Un o'r uchafbwyntiau, yn sicr, oedd ein canwr, sydd wedi ymgartrefu yn Rachub, Gwilym Bowen Rhys. Hyfryd oedd clywed yr holl ganeuon gwerin a thraddodiadol yn byrlymu fel pwll y môr! Rydym mor ffodus o gael cyswllt mor agos gyda Gwilym Bowen Rhys, sy'n gymaint o athrylith yn ei faes. Diolch hefyd i'n ffrindiau o Rownd a Rownd! Braff oedd cael sgwrsio gyda Tomi Llywelyn (Robbie) a Leusa Gwenllian (Kylie). Diolch hefyd i Mr Geraint Jones, Cwmni Ogwen Moblie Valeting a blwyddyn 6 am olchi ein ceir! Mae'n frain cael teimlo cynhesrwydd a haelioni pobl yr ardal yn rhoi'r fath gefnogaeth i Ysgol Llanllechid, a'r cyfan er budd ein plantos! Yr elw oedd: £2,094.28, sy'n swm anhygoel! Mrs Helen Williams Daeth anrhydedd a chlod arbennig i un o ffrindiau annwyl Ysgol Llanllechid. Ar ddiwedd Medi eleni derbyniodd Mrs Helen Williams y Fedal Gee mewn seremoni a gynhaliwyd yng nghapel Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg, Llandudno. Croesawyd y gynulleidfa i'r oedfa arbennig hon gan Aled Davies, a'r Parchedig Dylan Rhys Parry oedd yn gyfrifol am defosiwn agoriadol gydag aelodau Ysgol Sul Seilo. Gwyddom am ddawn ac ymroddiad Mrs Helen Williams i'r Ysgol Sul yng Nghapel Carmel ers un mlynedd a thrigain, sy'n wasanaeth eithriadol i'r gymuned yn Nyffryn Ogwen. Gwyddom hefyd am ei gwaith gyda ieuenctid y fro, ac mae'n glod aruthrol i Mrs Williams fod cymaint yn mynychu'r Clwb Dwylo Pysur pob nos Wener. Gwyddom hefyd am ei diwydrwydd cyffredinol yng Nghapel Carmel, a gyda grwpiau eraill sy'n cyfarfod yno. Llongyfarchiadau gwresog i chi Mrs Helen Williams a diolch ar ran pawb yn Ysgol Llanllechid am eich gwasanaeth unigryw i genedlaethau o blant yr ardal. Mae ein hedmygedd yn fawr tuag atoch.

Gŵyl Rygbi Dyffryn Ogwen

Trefnwyd gŵyl rygbi arbennig i blant o flynyddoedd 5 a 6 y dalgylch ar gaeau rygbi Dôl Dafydd, Clwb Rygbi Bethesda yn ddiweddar. Mwynhaodd y disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi amrywiol ac egnïol, cyn mynd ati i chwarae'n gystadleuol. Llawer o ddiolch i Rhys Jones, swyddog HWB rygbi Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu'r ŵyl ac i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am helpu gyda'r dyfarnu. Braff oedd gweld y caeau yn llawn, a'r plant yn eu helpen!

Gwobr Efydd

Mae'r ysgol wedi derbyn gwobr arbennig ym maes teithio cynaliadwy, fel rhan o weithgareddau Ysgol Llanllechid oddi fewn i'r agenda Ysgol Werdd. Llongyfarchiadau!

Pawen Lawen!

Er mwyn codi arian at Blant Mewn Angen, bu'r ysgol gyfan yn cynnwys yr holl staff, allan ar yr iard yn cyfarch ei gilydd drwy 'bawen lawen', gan gymryd rhan yn ymgyrch arbennig Aled Hughes o BBC Radio Cymru. Cafwyd hwyl a sbri, ac os ydych yn dymuno gweld y clip a recordiwyd, ewch i'n gwefan: YsgolLlanllechid.org ac agorwch y ffeil Albwm!

Ysgol Eco

Cafodd y Cyngor Ysgol syniad penigamp, sef cyfnewid dillad a llyfrau er budd y Groes Goch. A chanlyniad hynny oedd i'r disgyblion gyflwyno siec o £186.08 i Mr Dafydd Beech o elusen y Groes Goch, ar gyfer rhoi help llaw i'r rhai hynny a gafodd eu heffeithio gan y llifogydd diweddar, ymhell ac agos. Diwrnod gwerth chweil, lle bu'r ysgol gyfan yn trafod pynciau megis: cynhesu byd-eang; effaith sbwriel, yn enwedig plastig ar yr amgylchedd; ailgylchu, arbed ynni, coedwigoedd trofannol; tywydd - corwyntoedd ayyb.



Ysgol Eco - cyflwyno siec i'r Groes Goch

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2018
Tachwedd
24 Caffi Coed y Brenin – NSPCC
24 Festri Jerusalem – Cronfa Cancr y Prostad.

Rhagfyr
08 Cefnfaes – Ysgol Sul Jerusalem
15 Cefnfaes – Cylch Meithrin Cefnfaes.

2019
Ionawr
26 Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracy Smith.

Chwefror
02 Gofalwyr Gwynedd a Môn

Mawrth
02 Cefnfaes – Plaid Cymru
16 Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen
23 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Ebrill
13 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
27 Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem

Mai
11 – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.

Mehefin
15 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
22 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
29 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Medi
28 Cefnfaes – Plaid Cymru.

Hydref
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
TACHWEDD 27
RHAGFYR 11 AC 18
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN
Nos Lun, 10 Rhagfyr
am 7.00yh
yn Festri Capel Jerusalem
Arwyn Oliver
"Taith ar hyd y Lôn Las"
£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

Carmel Llanllechid
Te Bach
yn y festri
Pnawn Llun, 19 Tachwedd
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

Cymdeithas Jerusalem
Nos Iau, 13 Rhagfyr
am 7.00yh
yn Festri Jerusalem
Darlleniadau a Charolau

Ffair Nadolig
Eglwys St. Ann a St. Mair
yn Neuadd Goffa
Mynydd Llandygai
Sawrn, 17 Tachwedd
11.00 – 2.00

Neuadd Talgai, Llandygai
BINGO'R NADOLIG
Nos Iau, 29 Tachwedd
am 7.00
Er budd Cronfa Eglwys Sant Tegai
Croeso i Bawb

CAFFI COED Y BRENIN

BORE COFFI NSPCC
SADWRN, 24 TACHWEDD
10.00 – 12.00

FESTRI JERUSALEM

BORE COFFI ER BUDD CRONFA CANCR Y PROSTRAT
SADWRN, 24 TACHWEDD
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CAPEL BETHLEHEM TALYBONT
FFAIR NADOLIG
yn y Festri
Nos Fercher, 28 Tachwedd
am 6.30yh
Mynediad : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI YSGOL SUL JERUSALEM
SADWRN, 8 RHAGFYR
10.00 – 12.00

Neuadd Ogwen

ATGOFION AR GÂN

Sesiynnau cerddorol
i bobl hŷn

Dydd Gwener, 23 Tachwedd

Dydd Gwener, 7 Rhagfyr

1.15 – 2.30

Paned a chân yn ddi-dâl
(Canolfan Gerdd William
Mathias)

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CYLCH MEITHRIN CEFNFAES

SADWRN, 15 RHAGFYR
10.00 – 12.00

Cyfarchion Nadolig

Ni fydd **Alan Davies**,
Porthaethwy
(gynt o Fynydd Llandygai),
na **John a Gwen Davies**,
Tanysgafell Isaf,
yn anfon cardiau Nadolig eleni,
ond maent yn dymuno
Nadolig llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i'w cymdogion
a'u ffrindiau i gyd.



Rhifyn Rhagfyr

Deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 5 Rhagfyr
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 20 Rhagfyr**,
yn Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

gair neu ddau

John Pritchard

Byd Hurt

Ambell waith, mae'r byd yn ymddangos hyd yn oed yn fwy hurt nag arfer. Ac roedd y dyddiau'n dilyn llofruddiaeth Jamal Khashoggi, y gohebydd o Saudi Arabia, yn hurt iawn. Nid oherwydd yr holl drafod a chondemnio a fu ar y weithred giaidd o'i ladd wrth gwrs; roedd gan bobl berffaith gyfiawnhad dros dynnu sylw at y llofruddiaeth er mwyn condemnio pwy bynnag oedd yn gyfrifol amdani. Mae'r awgrym mai llywodraeth Saudi Arabia oedd y tu cefn i'r llofruddiaeth yn llysgenhadaeth y wlad yn Istanbwl yn amlwg yn gwbl annerbyniol i filiynau lawer o bobl ar draws y byd.

Mae'n bosibl fod llywodraethwyr Saudi Arabia yn gweld yr ymateb i lofruddiaeth Jamal Khashoggi yn eithafol a hurt. Wedi'r cwbl, camgymeriad ar ran criw bach o bobl a aeth ar gyfeiliorn oedd o, meddan nhw. Dylai pobl anghofio amdano, yn arbennig wedi i'r Brenin Salman a'r Tywysog Mohammed bin Salman gyfarfod â theulu Khashoggi er mwyn cydymdeimlo â hwy yn eu colled. Ond does yna ddim byd hurt ynglŷn â'r ymdrech i ddarganfod y gwir am yr hyn a ddigwyddodd nac ynglŷn â'r condemnad o bob tu ar bwy bynnag oedd yn gyfrifol.

Ac nid hurt chwaith oedd penderfyniad Aelodau Senedd Ewrop i alw ar holl wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i atal gwerthu arfau i Saudi Arabia oherwydd yr ofn eu bod yn cael eu defnyddio i ormesu pobl mewn unrhyw ffordd. Mae'r Almaen eisoes wedi penderfynu peidio â gwerthu arfau i'r wlad honno. Yr hyn sy'n

hurt yw nad yw pob llywodraeth arall, yn cynnwys llywodraeth y Deyrnas Unedig, wedi gwneud yr un peth. Mwy hurt fyth yw'r ffaith mai llofruddiaeth un dyn, Jamal Khashoggi, sydd wedi cythruddo'r miliynau yn hytrach na'r holl dywallt gwaed a'r miloedd o bobl a laddwyd yn y rhyfela yn Yemen dros y tair blynedd diwethaf. Mae Saudi Arabia yn chwarae rhan flaenllaw yn y rhyfel hwnnw, ac ers dwy flynedd mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cyhuddo llywodraeth Saudi o ymosod ar bobl gyffredin yno, yn gwbl groes i bob cyfraith ryngwladol. Ofnir fod hyd at 50,000 o bobl wedi eu lladd yn Yemen, heb sôn am y miliynau y gorfodwyd iddynt adael eu cartrefi sy'n dioddef mor erchyll ar hyn o bryd. Ymyrraeth a grym arfau Saudi Arabia fu'n gyfrifol am ran fawr o'r dioddefaint hwnnw.

Yr hyn sy'n hurt yw bod llywodraethau'n dal i werthu arfau i Saudi. Yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig sy'n gwerthu'r mwyaf o arfau i'r wlad, ac maent yn dal i wneud hynny wedi llofruddiaeth Khashoggi. Ond y peth gwirioneddol hurt o ran llywodraeth y Deyrnas Unedig yw ei bod yn dadlau bod ei threfniadau gwerthu hi'n sicrhau na chaiff arfau Prydeinig eu camddefnyddio. Ac mae'r balchder a'r hunan gyfiawnder Prydeinig hyd yn oed yn cyfiawnhau'r gwerthiant trwy ddweud nad yw gwledydd eraill hanner mor ofalus â ni wrth werthu arfau. Ydi, mae'r byd yn hurt iawn ar brydiau.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Hydref cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon yng Nghoed Mawr, yn bennaf i dderbyn adroddiadau am Gynhadledd Arbennig Plaid Lafur Cymru (a benderfynodd ethol ei harweinydd newydd trwy gyfundrefn un-aelod un-bleidlais) ac am gynhadledd Plaid Lafur Prydain yn Llynlleifiad (Lerpwl) gan anfonog ifanc.

Yn hwyrach yn y mis, daeth Eluned Morgan (un o'r ymgeiswyr ar gyfer

arweinyddiaeth Plaid Lafur Cymru) i Fangor i fynegi barn ac ateb cwestiynau. Ar hyn o bryd y mae'n gweinidog dros Y Gymraeg.

Yna, yn ddiweddarach yn y mis, daeth Chris Williamson (aelod seneddol Derby) i Hiracl i drafod democratiaeth o fewn y Plaid Lafur. Daeth aelodau o bump etholaeth i'r cyfarfod.

Bu rhai o aelodau Dyffryn Ogwen yn y tri chyfarfod.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, **Neville Hughes**
600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Anfonwn ein cofion at Mrs Glenys Edwards, 1 Cwlyn, sydd wedi bod yn yr ysbyty. Brysiwch wella Mrs Edwards!

Hefyd anfonwn ein cofion at Mr Ithel Owen, Penrhiw, sydd wedi bod yn wael am gyfnod.

Cynllun Ffrindiau...

Yn ddiweddar lansiwyd ‘Cynllun Ffrindiau’ gan fudiad Ffermwyr Ifanc Eryri mewn ymdrech i sicrhau parhad a dyfodol llewyrchus i’r mudiad er gwaetha’r toriadau ariannol a brofwyd. Prif nod Ffermwyr Ifanc Eryri yw medru parhau â’r gwaith da mae’r Ffederasiwn yn ei gyflawni i bobl ifanc Eryri rhwng 10 a 26 oed gan roi’r cyfleon gorau posib’ iddynt a rhoi cyfle i ddysgu, cyflawni a chael hwyl drwy galendr gweithgareddau gorlawn o gystadlaethau a digwyddiadau.

Cost ymuno â’r Cynllun Ffrindiau yw £100 y flwyddyn neu, yn hytrach, mae modd talu £8.50 fel taliad misol. Rhestrir y buddion fel a ganlyn:

- Cerdyn Aelodaeth Cynllun Ffrindiau unigryw
- Sticer Car – ‘Dwi’n Cefnogi CFfi Eryri – Ydych chi?’
- Ticed i 2 i’r Rali Sirol
- Ticed i 2 i’r Eisteddfod Sirol
- Cydnabyddiaeth yn Erwau Eryri a’r Adroddiad Blynyddol o dan y Cynllun Ffrindiau
- Gwahoddiad i dderbyniad y Cadeirydd mewn Sioeau lleol

“Mae’n gyfnod newydd ar y mudiad” eglurodd Eleri Evans, Trefnydd Ffermwyr Ifanc Eryri, “a rhaid manteisio a cheisio meddwl am bob ffordd o sicrhau nad ydi pobl ifanc Eryri yn colli’r cyfoeth o brofiadau a sgiliau a gynigir iddynt gan y mudiad. Ymunwch â’r Cynllun Ffrindiau er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd”.

Gellir cael ffurflenni ar gyfer ymuno â’r Cynllun Ffrindiau o Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri, Adeilad NFU, 19 Stryd Bangor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AT, Rhif Ffôn 01286 677513.

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Y gŵr o Rachub a’r Ffliw Pandemig (1)

Y Rhyfel Mawr

Ar Dachwedd 11 bob blwyddyn dros y can mlynedd diwethaf, mae miliynau o bobl yn coffáu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ar y diwrnod hwnnw ym 1918 ac yn dwyn i gof ryw 10 miliwn o aelodau’r lluoedd arfog a laddwyd rhwng 1914 a 1918. Rhaid peidio ag anghofio, chwaith, am y 10 miliwn o bobl gyffredin a diniwed a gollodd eu bywydau yn sgil y brwydro a hefyd y 23 miliwn o filwyr a anafwyd yn ystod y Rhyfel Mawr.

Ffliw Pandemig

Yn 1918-1919, hefyd, roedd ffliw dychrynlyd yn effeithio ar oddeutu 500 miliwn o bobl ledled y byd. Un a gymerodd ddiddordeb arbennig yn hanes y feirws hwnnw, a laddodd rhwng 3% a 5% o boblogaeth y byd, ydi Adrian Williams (gynt o Faes Bleddyn ond yn byw yn Bryn, Llandygái, heddiw). Wrth ymchwilio i hanes teulu’i dad, canfu Adrian fod y ffliw hwn wedi taro rhai aelodau o’i teulu. Taniodd hyn ei ddiddordeb i fynd ar ôl hanes yr afiechyd a thrwy wahoddiad gan gwmni o Fanceinion ym mis Medi eleni, cymerodd ran mewn rhaglen ar BBC Wales yn olrhain hanes y ffliw a’r effaith a gawsai’n fyd-eang.

Oherwydd sensoriaeth y cyfnod ar gynnwys beth y câi’r wasg ei gyhoeddi, dim ond y papurau yng Nghymru, yn ôl Adrian, a roddodd sylw haeddiannol i’r ffliw ac fe’i anwybyddwyd gan y wasg yn Lloegr a’r Alban.

O ble daeth y ffliw?

Dywed rhai iddo ddechrau yn America ac eraill yn China ond, o safbwynt Ewrop, o Dde Ddwyrain Asia y daeth. O Ffrainc, ymledodd i Sbaen ac, o’r herwydd, braidd yn gamarweiniol ydi’r term ‘Ffliw Sbaeneg, fel y’i gelwid’. Adar ac anifeiliaid, meddir (e.e. moch) oedd tarddiad y feirws. Amcangyfrifir iddo achosi rhwng 50 miliwn a 100 miliwn o farwolaethau ar draws y byd, gydag yn agos i 250,000 ym Mhrydain.

Effeithiau’r ffliw ar dad Adrian

Gan mor gyndyn oedd ei dad i sôn am y mater, aeth blynyddoedd heibio cyn i Adrian gael darlun cyfan ganddo o sut yr effeithiodd y ffliw arno ef a’r teulu. Er ei fod yn gwybod am ei daid a’i nain ar ochr ei fam, ni wyddai ddim am y rhai ar ochr ei dad. Pan holodd ei fam, atebodd hithau fod y ddau wedi marw pan oedd ei dad yn ifanc iawn a siarsiodd arno i beidio â chodi’r mater gyda’i dad rhag ei ypsetio. Roedd wedi meddwl erioed i’w dad gael ei eni yn Lerpwl i rieni Cymraeg. Doedd

dim yn anghyffredin yn hynny gan fod cymuned fawr o Gymry yn Lerpwl ar y pryd a nifer o gapeli Cymraeg yn y ddinas.

Ond wrth i’r blynyddoedd fynd heibio, cafodd Adrian ar ddeall i’w dad gael ei eni, yn ôl pob tebyg, yn Stryd Henry, Caergybi, yn un o saith o blant (ac un yn marw ym 1913 yn 20 wythnos oed). Cofia Adrian fynd efo’i dad i weld bedd y teulu ym Mynwent Maes Hyfryd, Caergybi, ond roedd yn amharod i ddweud dim ynglŷn â sut y buont farw, gan gymaint yr effaith niweidiol a gawsai eu colli arno.



Cyril Williams, tad Adrian

Canfod y gwir

Flynyddoedd yn ddiweddarach, cafodd Adrian wybod mai’r ffliw oedd yn gyfrifol am eu marwolaeth. O fewn ychydig ddiwrnodau i’w gilydd ym mis Hydref 1918, roedd tad Adrian wedi colli ei dad (nad oedd ond newydd ddychwelyd o’r Rhyfel) yn ogystal â’i fam a dau o’i frodyr, gan ei adael o, ei ddau frawd a’i chwaer yn amddifad. Cofia Adrian iddo ddweud wrtho fod ganddo gof o’u gweld i gyd yn farw yn y tŷ. Ar y pryd, roedd y ffliw’n cael ei ystyried yn bla ac roedd pawb yn gyndyn iawn o ymweld â thai ble’r oedd y ffliw.

I’w barhau

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Stondin Ysbyty Gwynedd
Llwyddwyd i godi dros £114 ar ein stondin ddydd Llun 14 Hydref. Diolch i bawb a gyfrannodd i'r achlysur, boed ar y rota stondin neu drwy gynnig nwyddau i'w gwerthu.

Diolchgarwch Ysgol Llandygai
Braf oedd cael croesawu disgyblion a'u rhieni, athrawon a chymorthyddion ein ysgol eglwysig i gynnal gwasanaeth o Ddiolchgarwch ar fore Iau, 25 Hydref. Pob clod i'r plant a'r athrawon am eu gwaith caled wrth baratoi cyflwyniadau o wahanol agweddau o ddiolch. Cyflwynwyd rhoddion hael i Fanc Bwyd y Gadeirlan Bangor.

Offeren Dyddgŵyl y Meirw
Roedd croeso i bawb o Fro Ogwen yn yr

eglwys ar 2 Dachwedd i gofio a gweddïo dros eneidiau yr ymadawedig mewn gwasanaeth o gymun.

Suly Cofiant, Tachwedd 11eg 2018
I ddathlu Camlwyddiant Diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf cynhaliwyd dau wasanaeth arbennig yn St Tegai. Canodd clychau'r eglwys am 12.30 y bore yn dilyn Cymun Bendigaid a Seremoni y Cofiant. Seiniodd clychau'r eglwys unwaith eto gyda'r nos am 7 o'r gloch cyn Gwasanaeth Bro Ogwen o Fyfyrdod a Chymodi. Roedd hyn yn rhan o'r ymgyrch cenedlaethol i gael pob clochdy yn y wlad i seinio'r heddwch.

Bingo'r Nadolig
Bydd cyfle arall i fwynhau hwyl a sbri Bingo St Tegai ar ddydd Iau 29 Tachwedd am 7.00 o'r gloch yn Neuadd Talgai y pentref. Dewch i gystadlu am wobrau da - croeso i bawb!

Gwasanaethau Sant Tegai
Y drefn arferol yn St Tegai yn ystod y mis yw:
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

Caerhun a Glasinfryn

Rhagflas o Hyfforddiant Lleisiol

Mae Marian Bryfdir yn ailagor ei STIWDIO LLAIS yn Waen Wen (ger Glasinfryn) mis yma gan gynnig y gweithdy canu agoriadol yn rhad ac am ddim i gantorion lleol.

Bydd cyfle i gael gwersi unigol yn y Stiwdio yn ogystal ag ymuno yn y gweithdai gyda Marian a'r canwr ac athro llais Kiefer Jones. Fel arbenigwyr mewn techneg lleisiol bydd pwyslais yn eu hyfforddiant ar ddysgu sut i anadlu'n gywir a chynhyrchu'r llais yn iach. Yn naturiol maent hefyd yn paratoi cantorion o bob oed (plant dros 12) i baratoi am arholiadau canu, eisteddfodau a chyngherddau.

Os hoffech mwy o wybodaeth cysylltwch â Marian ar 01248 361702 neu bryfdir1@btinternet.com

Cylch Glasinfryn

Cwmni Mrs Mary Axford gawsom yn y Cylch nos Fercher 10 Hydref. Bu Mary yn gofalu am yr Adran Marchogaeth i'r Anabl yn Nhreborth. Gweithiodd yn ddiwyd a chydwybodol am 39 mlynedd yn tywys ac ennyn hyder i farchogaeth i blant ac oedolion gydag anghenion arbennig. 'Roedd hefyd yn gofalu am y ceffylau oedd yn cael eu cadw yn Nhreborth ac yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gerdded ac arwain y pump ceffyl a oedd mor bwysig i'r marchogwyr o bob oedran. Dewiswyd y ceffylau yn ôl eu natur naturiol i gydweithio â'r plant a phobl, byddai gweld yr hyder yn datblygu ymhlith y marchogwyr yn dod â phleser mawr i Mary. Daeth cyfnod o bryder i Mary pan orfu iddynt symud y ceffylau o Dreborrh ond daeth haul ar fryn, a bellach mae'r marchogaeth yn cymryd lle yn stablau "Snowdownia Riding Stables".

Diolch am bobl fel Mary Axford sydd yn rhoi eu hamser yn wirfoddol i ofalu am bobl ac anifeiliaid. Dymunwn yn dda i bawb sydd yn mynychu'r stablau marchogaeth yn eu lleoliad newydd.

Diolchwylid i Mary gan Margaret Owen a mwynhawyd paned a sgwrs i ddiweddu'r noson wedi ei baratoi gan Kath a Mair. Bydd y cyfarfod nesaf ar 14 Tachwedd pryd y ceir sgwrs gan Dr Paul Smith ar Ethiopia.

Bingo

Cafwyd noson Bingo hwyliog a llwyddiannus iawn yn y Ganolfan ar 24 Hydref pryd y codwyd £201 tuag at Tŷ MIND, Ffordd Abbey, Bangor. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y noson, drwy fynych, rhoi chyfraniadau hael iawn tuag at y raffl, tombola a gwobrau bingo. Hefyd diolch i Ann a'i ffrindiau am drefnu ac i Carol am alw. Bydd y Bingo nesaf tuag at Eglwys Sant Cedol ar 16 Tachwedd, a'r olaf am y flwyddyn ar 7 Rhagfyr at y Ganolfan. Y ddau yn dechrau am 7yh.

Llais Ogwan

Dilynwch ni ar trydar

Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Yng nghanol penawdau dyddiol yn ymwneud â gwleidyddiaeth mae ein haelodau sy'n aelodau o'r Cynghorau Cymuned a'r Cyngor Sir yn gweithio drosoch chi. Mae'r Cynghorydd Rheinallt Puw mewn trafodaethau, fel aelod ar Gyngor Gwynedd, i geisio cael glanhau llwybrau a ffyrdd yn amlach yn Ward Ogwen, a bod hynny wedyn yn cyd-fynd gyda gwaith Adam sydd yn gwneud rhan o'r gwaith gyda Phartneriaeth Ogwen ar ran ein Cynghorau Cymuned. Cewch rifau cyswllt ein Cynghorwyr Sir yn Llais Ogwan.

Mae ein Haelod Seneddol a Chynulliad hefyd wedi bod yn gweithio ar ein rhan. Unwaith eto mae Hywel Williams yn ceisio brwydro ar ran ei etholwyr dros Daliadau Tywydd Oer. Oherwydd diffyg

yn y system o fesur y tymheredd mae llawer o bobl hŷn, pobl ag anabledd a theuluoedd yn colli allan ar y taliadau hyn. Cymerir y mesuriadau ym Mona, Ynys Môn, ble mae'n llawer cynhesach na Mynydd Llandygai, Dyffryn Ogwen, Dinorwig a Deiniolen. Mae trafodaethau wedi cychwyn, gobeithio y bydd yn cael gwrandawriad teg er tegwch i'w etholwyr.

Pwnc arall sydd wedi codi ei ben ganddo ef a Siân Gwenllian ydy dyfodol Parc Busnes Cegin sydd wedi bod fel anialwch ers deunaw mlynedd. Bu Siân Gwenllian yn holi Prif Weinidog Cymru ynglŷn â dyfodol y lle gan bod addewidion o swyddi wedi ei gwneud ers amser a dywedodd bod ei hetholwyr yn mynd yn brin o amynedd.

Mae manylion cyswllt y ddau aelod yn Llais Ogwan.

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

CD diweddaraf y côr ar fin cael ei ryddhau
Mae'r gwaith o recordio ar gyfer y CD newydd wedi dod i ben erbyn hyn ac mae'r dasg o'i rhoi wrth ei gilydd yn mynd rhagddo'n hwylus. Ymhlith y darnau fydd ar y CD mae 'Tiroedd ein Cof' gan Y Prifardd Ieuan Wyn a'r Dr Owain Llwyd. Darn newydd yw hwn a gomisiynwyd gan y côr er cof am Tom Morgan, Llywydd y côr ac aelod am 60 mlynedd. Fe gafodd y côr y fraint o gydweithio gyda Band Black Dyke o Swydd Efrog ar y recordiad gan mai hwy sy'n perfformio'r cyfeiliant iddo. Darn arall gyda'r band yw 'Heriwn, Wynebwn y Wawr' gan Gareth Glyn ac Eleri Cwyfan ac mae hwnnw hefyd yn gyfansoddiad cyffrous a bywiog. Ymhlith rhai o'r darnau swynol eraill a recordiwyd mae 'Mor Fawr wyt Ti' gyda'r trefniant gan Owain Arwel Davies wedi ei seilio ar alaw werin o Sweden.



Alun Davies sy'n gofalu am gynhyrchu CD newydd y côr

Meddai Alun Davies sy'n gofalu am lansio'r CD, " Mae hon wedi bod y daith flinedig i ni fel côr ond rŵan mae'r holl waith ar fin dwyn ffrwyth." Adleisiwyd hynny gan Maldwyn Pritchard, trysorydd y côr pan ddywedodd, "Dan ni wedi ceisio sicrhau bod y lluniau gorau o'r aelodau o flaen Castell Penrhyn. Mae'r diwyg gorau yn mynd i mewn i gynhyrchu'r CD a gwnaeth pob llais yn y côr gyfraniad clodwiw i lwyddiant y

prosiect."
Gobeithir cael y CD ar werth yn fuan a bydd yn anrheg Nadolig penigamp i deulu a ffrindiau ymhell ac agos!

Damon Albarn wedi disgyn mewn cariad â'r Cymry.
Fel y nodwyd y mis diwethaf mae Côr y Penrhyn wedi cael gwahoddiad i ymuno â Damon Albarn, cyn brif leisydd y grŵp Blur, pan mae'n rhyddhau ei albwm newydd yn Blackpool. Yn y wasg yn ddiweddar adroddwyd bod Damon Albarn wedi disgyn mewn cariad â Chymru ac â'r bobl. Dywedodd ei fod wedi dysgu llawer am ein hanes ac am yr hyn y bu ein cyndadau drwyddo yn ystod y cythrwfl rhwng yr Arglwydd Penrhyn a phobl Bethesda.

"Roeddwn wedi fy swyno gan fawredd a rhwysg Castell Penrhyn" meddai, "cyn i mi sylweddoli mai ar gefn yr elw anghredadwy a wnaed yn Jamaica a Chwarel y Penrhyn y llwyddwyd i godi adeilad mor grand."
Ychwanegodd y cerddor roc nad oedd yn gwybod fawr ddim am y Cymry nac am ddiwylliant y bobl tan yn ddiweddar. Fodd bynnag, wedi iddo gysylltu â Gruff Rhys o'r grŵp Super Furry Animals ac i hwnnw argymell Côr y Penrhyn iddo daeth i ddechrau gweld beth oedd gennym i'w gynnig. "dwi'n edrych ymlaen at gael perfformio yng Ngogledd Cymru cyn hir," meddai ac mae'n edrych ymlaen at gael cwmni'r côr yn Blackpool.

Cystadlu a denu aelodau newydd.
Yn ystod y mis hwn bydd y côr yn

cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ac yna byddwn yn dechrau ymarferion ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Mae brwdfrydedd y côr o dan arweiniad Owain Arwel yn cael ei gynorthwyo gan Caleb Rhys a Fran Davies yn llwyddo i ddenu aelodau newydd fel y profodd y noson agored a gafwyd yn ddiweddar.



Yn Henllys ar 1 Tachwedd arweiniwyd y côr gan Caleb Rhys. Mae Caleb yn ennill profiad fel arweinydd ac yn datblygu i fod yn is-arweinydd medrus ar y côr. Ar ben hynny, mae'n unawdydd gyda llais nerthol a soniarus sy'n swyno cynulleidfaoedd ymhobman.



CSL
GWASANAETHAU
CYNORTHWYO
FFERMA

Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost: admin@cslfarm.com,

Ein gwefan: www.cslfarm.com

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Bwced rwbwl enfawr (4)
- 4 Nid yma; acw (4)
- 8 Cyw sgwarnog, neu’n dafodieithol, ferch ifanc efallai (tafod(6)
- 9 Er yn adyn nid llaw flewog sydd iddo; pluog ydyw (6)
- 10 Mangre’r sant neu fath o 9 Ar Draws ger glannau de-ddwyrain Môn (4,7)
- 11 Gellir ei wneud i dir neu i gelwydd (4)
- 13 Cartref y Parchedig (4)
- 16 Yn perthyn i wlad gyfan (11)
- 19 Addasa’n iawn, neu byddi’n hollol amhriodol (6)
- 20 O’i deml i gael trefn cyn cael alaw (6)
- 21 Ar y drws i geisio mynediad (4)
- 22 Gwasgaredig (4)

I LAWR

- 2 Cando; mae’r hen blant bach yn mynd yno (hwiangerdd) (5)
- 3 Gwneud yn ddiymadferth (7)
- 4 Swnio fel nesáu at wraig o flaen pedol (6)
- 5 Penrhyn mawr cythryblus i’r dwyrain o’r Môr Coch (6)
- 6 ‘Bara menyn’ dyffrynoedd Ogwen, Peris a Nantlle gynt (4)
- 7 Cudyn bach o wallt modrwyog (6)
- 12 Yn drefnus, canu am gyrraedd y nod (6)
- 13 Gŵr Branwen yn yr ail chwedl (7)
- 14 I’n goleuo, rhoir diwedd y deyrnged i sôn am y dyfeisydd enwog o America (6)
- 15 Mat car bob sut yn orchudd dan y teiars (6)
- 17 Cefnogi’n ariannol (4)
- 18 Merch yn gwerthu porphor; cafodd droedigaeth gan Paul (16 Actau) (5)

ATEBION CROESAIR HYDREF 2018

AR DRAWS 2 Cydganu, 7 Pwsi, 8 Nawr, 9 Cywydd, 10 Fachwen, 11 Llugoer, 12 Oed, 14 Atgas, 16 Sgram, 18 Llwm, 21 Ymdroi, 23 Henoed, 24 Rwysg, 25 Moli, 26 Orig, 27 Oedfaon

I LAWR

1 Dwybunt, 2 Cicio, 3 Diwyro, 4 Aeddfed, 5 Unochrog, 6 Gwledd, 13 Erw, 15 Anghofio, 17 Anobaith, 18 Lladrad, 19 Mynydda, 20 Tesog, 22 Digon

Un neu ddau o atebion wedi achosi dipyn o drafferth y tro yma. ‘Tesog’ oedd ateb cywir 20 I Lawr, ond cafwyd ‘Llethol’, ‘Selog’, ‘Llesol’, a ‘Ffeind’. ‘Gwledd’, ateb cywir 6 I Lawr oedd y llall, gyda phedwar ohonoch yn cynnig ‘Swper’. Yr unig gamgymeriad arall oedd rhoi ‘Enwi’ yn lle’r ateb cywir ‘Moli’.

1	2		3		4		5					
								6		7		
8							9					
	10											
11	12								13			
					14		15					
	16		17								18	
19							20					
					21				22			

Cafwyd atebion hollol gywir gan y canlynol: Rhiwlas, Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch. Millie Jones, Llanllechid; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Iona Williams, Llanddulas; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Gareth William Jones, Bow Street; Jean Hughes, Talybont; John H. Evans, Llanberis; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Dilys Parry,

Yr un sy’n derbyn y wobr a’r clod y tro yma ydi Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, LL54 7HN. Llongyfarchiadau calonnog i chi. Atebion erbyn 7 Rhagfyr, 2018 **fan bellaf** i ‘Croesair Tachwedd’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 7 Rhagfyr, 2018 i ‘Croesair Tachwedd’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Ysbyty

Braf iawn yw clywed bod Margaret Jones, 74. Bro Emrys, yn ôl yn ei chartref, yn dilyn cyfnod hir yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri. Gobeithio eich bod yn teimlo’n well o lawer erbyn hyn, Margaret.

Go lew ydi Idris Thomas, 16 Dolhelyg, ar hyn o bryd. Anfonwn ein dymuniadau gorau ato.

Mae Ian, Llwyn Onn, wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo, ac anfonwn ein cofion cynhesaf at Joy a’r teulu oll.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Claire ac Andy Butterfield, Penmaenmawr, ar enedigaeth eu hail fab, William Jonas, brawd bach i Asa. Mae Yvonne a Keith, Meadowsides, yn Nain a Taid balch am yr ail dro.

Bywyd Newydd

Daeth Lucy, merch Bill Morrell, 4 Dolhelyg, a’i merch fach ddeunaw mis, Maggie Sue, am dro i Dalybont cyn iddynt symud i fyw i Las Vegas am dair blynedd. Derbyniodd Lucy driniaeth ddwys iawn ar ei chalon ychydig o amser yn ôl, felly roedd yn dda ei gweld hi wedi gwella a chryfhau gystal. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd i’r teulu bach ar drothwy eu bywyd newydd. Lle iawn i Taid fynd am wyliau, beth bynnag !

Cartref Newydd

Mae Catrin, Chester a’r plantos, Hattie a Teddy, wedi symud o 40 Bro Emrys i fyw i Bontnewydd. Er ei bod wedi cymryd ychydig o fisoedd i’r newyddion gyrraedd ‘Llais Ogwan’, dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd. Dydi Bontnewydd ddim yn bell iawn i Nain a Taid bicio yno i warchod.

Arlunydd Ifanc

Hyfryd oedd clywed bod llun o’i Nain a beintwyd mewn olew gan Lauren, 80 Bro Emrys, wedi’i ddewis i gael ei arddangos yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi. Disgybl Chwched Dosbarth yn Ysgol Ffrians yw Lauren, a phwy ydi Nain, meddwch chi? Wel, Myfanwy Jones, 67 Bro Emrys, neu Myfanwy John Ambiwllans i ni, yn Nhalybont; gwraig annwyl a chymwynasgar, sy’n llawn haeddu cael ei



llun ar wal unrhyw Galeri. Llongyfarchiadau mawr iti, Lauren, a phob llwyddiant yn dy faes dewisedig.

Capel Bethlehem

Oedfaon
Tachwedd 18: Parchg. R. O. Gaerwen.
Tachwedd 25: Gweinidog.
Rhagfyr 2: Parchg. Ddr. Elwyn Richards, caernarfon.
Rhagfyr 9: Gweinidog.
Rhagfyr 16: Oedfa Nadolig.
Rhagfyr 23: Gweinidog.
Rhagfyr 30: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.

Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Y Diolchgarwch

Ar brynhawn Sul, 14 Hydref, cynhaliwyd ein gwasanaeth o ddiolch yng nghwmni plant yr Ysgol Sul a’n gweinidog, y Parchg. John Pritchard. Barbara oedd yn gyfrifol am drefnu’r oedfa, gydag Angharad, Enid a Neville yn cynorthwyo. Cafwyd paned yn y festri ar y diwedd.
Dyma lun o’r plantos a fu’n cymryd rhan.



Bwrlwm

Er nad oedd Llew Jones yn medru bod yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrlwm a gynhaliwyd ar ddydd ei ben-blwydd yn 93, sef 18 Hydref, gofalodd Enfys a’r teulu ein bod yn dathlu’r achlysur drwy ddod a chacen siocled anferth i’r cyfarfod. Anfonwyd ein llongyfarchion ato, gan ddymuno gwellhad buan iddo. Diolch i’r aelodau am lenwi bocsus esgidiau gydag anrhegion Nadolig i blant difreintiedig ein byd! Diolch i Rita Hughes am ofalu am y cyfan!

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Eirlys Ellis a gymerwyd i Ysbyty Gwynedd ar ddechrau’r mis. Ein cofion hefyd at bawb o’n haelodau nad ydynt yn teimlo’n dda ar hyn o bryd!

Banc Bwyd

Diolch i bawb gyfrannodd mor hael i’r Banc Bwyd dros y Diolchgarwch. Diolch yn fawr i Barbara am ddanfoni y cyfan i’r ganolfan yng Nghaernarfon.

Ffair Nadolig

Cynhelir ein ffair eleni yn y festri ar nos Fercher, 28 Tachwedd, am 6.30. Dewch yn llw!

Bylbiau Cennin Pedr

Cawsom syrpreis neis iawn y bore Sadwrn o’r blaen, wrth ddod ar draws Sgwad Balchder Bro’r Dyffryn wrthi’n ddyfal plannu bylbiau cennin Pedr. Bydd y llain o flaen tai Bro Emrys yn werth ei gweld yn y Gwanwyn. Diolch Ann, Nev, Paul a Dafydd am eich mawr garedigrwydd. Aeth Jean a fi yno i edmygu’r gwaith. ‘Busnesu’ fasa ambell un yn ei alw, mae’n siŵr! (Gweler llun gyda hanes Balchder Bro).

Marchnad Ogwen

Cawn fynd am dro i Farchnad Ogwen

ddwywaith y mis yma. Cynhelir Marchnad Nadolig ar nos Fercher, 21 Tachwedd, o 5 o’r gloch tan 8, yn Neuadd Ogwen. Bydd yn gyfle gwych i brynu anrhegion ac addurniadau Nadolig o waith crefftwyr o’n Dyffryn ein hunain, yn ogystal ag ystod eang o fwydydd a diodydd a gynhyrchir yn lleol. Mae safon y gwaith, a’r amrywiaeth sydd ar gael, yn ardderchog. Byddai mor braf gweld mwy o bobl Talybont yn cefnogi’r Farchnad. Ewch yno i weld beth sydd gan y stondinwyr i’w gynnig. Maent yn curo Amazon a’r siopau mawrion yn rhacs. Bydd Neuadd Ogwen yn fwrwm o brysurdeb, lliw a chynhesrwydd y Nadolig, a’r Gymraeg ar wefusau pawb. ‘Chewch chi mo’ch siomi, dwi’n siŵr.

Eglwys St Cross

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â theulu Nesta Hughes, Pandy, Halfway Bridge, a fu farw yng Nghartref Y Willows, Caernarfon, ym mis Hydref, yn 91 mlwydd oed. Fe gynhaliwyd ei hangladd ar lan y bedd ym mynwent St Cross, Tal-y-bont, ar 23 Hydref, ym mhresenoldeb ei brawd Gwynedd a’i chwaer Linda a’u teuluoedd, ac aelodau o gynulleidfaoedd St Cross, St Tegai, a Sts Fair, Gelli, lle roedd hi’n canu’r organ am hanner canrif. Yn wreiddiol, roedd Nesta yn aelod yn St Cross, ac mae ambell un yn ei chofio hi a’i mam yn cerdded dros y caeau i’r eglwys bob Sul, weithiau mwy nag unwaith. Ar ôl iddi hi ymddeol o’i gwaith yn Crosville, roedd Nesta i’w gweld yn aml iawn yn canu’r organ yn Amlosgfa Bangor. Yn 2011, gwobrwyd Nesta â Thystysgrif Teilyngdod Archesgob Cymru mewn Cerddoriaeth Eglwysig am ei gwaith fel organydd dros y blynyddoedd. (Mae’n dystysgrif rhyng-enwadol, gyda llaw, a derbynir enwebiadau i gydnabod cerddorion yng nghapeli yn ogystal ag eglwysi.) Roedd Nesta hefyd yn hoff iawn o deithio o gwmpas y wlad, ac roedd hi’n siŵr o anfon cardiau post adref i’w ffrindiau tra roedd hi ar ei gwyliau. Atgofion melys sydd gennym am ddynes glên ac annwyl.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Nest Davies, Llanfairfechan, chwaer Denys Davies sy’n mynychu eglwys St Cross. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent St Cross, hefyd ar Hydref 23ain, ym medd ei rhieni. Roedd ei thad, y diweddar Tra Pharchedig J. T Davies, yn Ddeon Bangor 1941-1955.

Darlith, 7 p.m. Tachwedd 16eg, yn yr Ysgoldy - “Teach me my God and King - George Herbert, Poet & Priest”
Edrychwn ymlaen at groesawu yr Athro Helen Wilcox, Prifysgol Bangor,

Y Gerlan

Caren Brown Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn, 2 Pen Clwt, Gerlan
LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640 /
heleddselwyn@hotmail.com

Taith Rygbi

Mae Iago Davies Tŷ Dŵr, allan yn Namibia mis yma yn chwarae i dîm y Wailers yng nghystadleuaeth y “Safari Sevens”. Bydd y Wailers yn chwarae yn erbyn timau cenedlaethol Sbaen, Portiwgal, Kenya, Namibia, Uganda a rhai timau cenedlaethol eraill. Pob dymuniad da i ti a’r tîm Iago ac edrychwn ymlaen at glywed dy hanes.

Llais Cyfarwydd

O fyddwch chi’n gwylïo’r BBC dros yr wythnosau nesaf, efallai y byddwch yn clywed llais cyfarwydd o’r ardal yn hysbysebu Plant Mewn Angen cyn ambell i raglen. Bu Liwsi Mô o’r Gwernydd yn lwcus iawn i gael ei dewis fel un o’r lleisiau plant fydd yn hyrwyddo’r digwyddiad pwysig yma ar y BBC a chafodd hwyl yn recordio’r

“lincs” yn y BBC ym Mangor a mwynhau pob eiliad. Da iawn chdi Liwsi – nawn ni wrando allan amdana chdi!

Babi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Lisa a Gwion Williams Ffordd Gerlan ar enedigaeth eu merch Loti Fflur. Mae’r teulu wedi gwirioni’n lân efo Loti Fflur, yn enwedig ei brodyr Aron, Osian, Jac a Deian. Llongyfarchiadau i’r teulu i gyd.

Cartref Newydd

Dymunwn yn dda i Siwan Puw a’i phartner James yn eu cartref newydd yn Llundain. Mae Siwan yn byw yn Llundain ers sawl blwyddyn bellach, ond wedi prynu cartref yno erbyn hyn. Pob lwc i chi’ch dau.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Elin Cain Ffordd Gerlan ei phen-blwydd yn 21 yn ddiweddar. Gobeithio iddi fwynhau’r dathliadau yn Ffrainc gan ei bod yn astudio yno ar hyn o bryd.

Croeso nôl i Ciltrefnus

Braf yw cael croesawu Sian Martin yn ôl i Ciltrefnus. Mae Sian yn symud yn ôl i Gerlan efo’i phartner Gavin Owen a’r plant. Pob dymuniad da i chi yn eich cartref newydd.

i’r Ysgoldy nos Wener, 16 Tachwedd, i sgwrsio am y bardd ac offeiriad George Herbert (1593-1633). Y mae sawl enghraifft o’i farddoniaeth yn enwog fel emynau: *Let all the world in every corner sing* (hefyd yn Gymraeg - *O caned pawb o bedwar ban y byd*); *Come, my Way, my Truth, my Life; King of Glory, King of Peace, I will love thee; Teach me, my God and King, in all things thee to see*, o lle daw teitl y ddarlith.

Sul yr Adfent - Rhagfyr 2il

Ar Sul yr Adfent eleni, bydd y chwech eglwys yn Ardal Weinidogaethol Bro Ogwen (St Cross, St Tegai, Sts Fair Gelli, St Cedol Pentir, Sts Ann a Sts Fair Mynydd, Eglwys Crist Glanogwen) yn ymuno â’u gilydd am un gwasanaeth yn Eglwys Crist. Mae’r amser i’w gadarnhau - 10.30 neu 11 o’r gloch. Mae Christine Edwards, organydd Glanogwen, wedi ffurfio côr bach i ganu *Advent ‘O’ Carol* gan Joanna Forbes L’Estrange yn ystod y cymun.

Bore Coffi, Rhagfyr 4ydd

Gofynnir i bawb nodi y bydd y Bore Coffi ym mis Rhagfyr yn Fore Coffi Nadolig.

Eglwys Glanogwen a Llanllechid

TE NADOLIG

Gwesty’r Douglas Arms
Gwener, 7.12.2018
2.00pm – 4.00pm
Stondin a Raffl
Tocyn: £5

Llais Ogwan

Dilynwch ni ar trydar



CHWILAIR

A	Y	S	G	E	R	B	W	D	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M
B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D
W	A	H	U	Z	D	I	A	R	H	E	B	I	O	N	M	X	V	B	A
D	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	L	G
R	G	E	A	R	M	Y	C	R	Y	W	S	I	E	F	Y	D	B	O	H
C	U	N	M	R	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	R	D	D
X	U	Y	P	W	P	R	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	A	E
G	E	H	O	M	H	R	E	P	T	T	C	B	B	C	U	U	N	U	J
P	L	R	T	M	I	V	Y	V	D	C	B	N	B	F	R	F	H	O	G
J	V	N	I	I	R	R	X	D	I	M	O	H	T	T	O	S	I	K	O
P	W	E	R	C	M	K	C	B	A	I	O	R	C	X	V	R	N	Y	H
S	T	P	M	E	R	F	Y	J	N	I	D	Z	H	B	C	W	O	O	S
C	R	D	A	I	X	N	I	Y	L	X	N	J	J	M	B	W	E	T	E
X	M	D	D	X	K	F	L	U	P	C	Q	Y	O	I	L	F	D	E	R
Z	Q	Y	R	O	C	G	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	D	A	J
K	J	M	C	L	N	N	L	R	V	O	G	J	P	W	P	P	G	S	O
W	J	R	J	E	P	O	N	T	Y	D	D	Q	U	L	F	O	S	V	T
X	E	E	A	N	I	F	E	I	L	I	A	I	D	U	G	R	H	S	L
Z	E	F	A	G	W	E	I	T	H	F	E	Y	D	D	F	W	X	I	W
T	Z	F	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	E	O	G	D

O’r Geiriadur: Sboncen

Swyddogaeth *Geiriadur Prifysgol Cymru* yw cofnodi a disgrifio datblygiad geiriau dros amser. Nid ydym byth yn bathu geiriau newydd – mae yna sefydliadau eraill yn gyfrifol am hynny, megis Canolfan Bedwyr. Sut mae mynd ati i fathu term neu air newydd? Mae rhai geiriau yn amlwg yn fenthyciadau o’r Saesneg e.e. abacws, datwm, ac eraill yn gyfuniadau o elfennau sy’n bodoli eisoes e.e. gliniadur, cad-drefniad, ond mae ’na ambell un sy’n fwy creadigol!

Mae llawer o bobl yn cadw’n iach drwy chwarae sboncen, sef, yn ôl y Geiriadur, *Gêm i ddau neu bedwar o chwaraewyr a chwaraeir â ragedi a phêl rwber fechan a fwrir yn erbyn waliau cwrw caeedig*. ‘Squash’ yw’r enw Saesneg ar y gêm, ac mae’r gyfrol *Termau Chwaraeon* 1965 yn cynnig cadw at hynny, a *Geiriadur Termau* 1973 yn cynnig sgwas. O ble felly daeth yr enw *sboncen*? Yn ôl Dr. M. P. Bryant-Quinn, gofynnwyd i’r Athro Stephen J. Williams gymreigio’r enw gan banel

cyfieithu termau y Bwrdd Gwybodau Celtaidd. Yr oedd yn ysgolhaig o fri a ddyfeisiodd gannoedd o dermau Cymraeg, yn enwedig ym maes chwaraeon. Bu farw ym 1992, ac mae coffadwriaeth iddo gan D. Ben Rees yn sôn am ŵr bywiog, cyfeillgar a chymdeithasgar. Mae’n debyg ei fod hefyd yn un arbennig o dda am ddweud stori, a dyma’r hanes adroddwyd ganddo am fathu’r enw *sboncen*.

Wedi derbyn y gwahoddiad i gymreigio’r enw, fe aeth yr Athro Williams i’r gampfa i wyllo pobl yn chwarae’r gêm. Wrth iddo syllu o’r oriel a gwrando ar y belen yn taro yn erbyn wal y cwrw ac yn rhybedian, daeth y gair *sbonc*, yn yr ystyr *adlam*, i’w feddwl, gyda sŵn y gair Cymraeg yn cyfateb yn union i’r hyn yr oedd yn ei glywed wrth i’r gêm fynd rhagddi. Atodi’r terfyniad *-en* wedyn, a dyna greu’r gair!

Esiaml dda o enw yn dynwared y weithred mae’n cyfeirio ati, a chipolwg ddifyr ar y broses o fathu enwau. Gyda’r gaeaf ar y trothwy, a’r nosweithiau’n medru bod yn hir, cymerwch y cyfle i bori yn GPC Ar Lein gan gofio am yr hanesyn bach hwn a chwilio am enghreifftiau tebyg: <http://gpc.cymru>

Testunau

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg TESTUN sydd wedi ymddangos yn y chwilair tros y blynyddoedd. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy llythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Rhagfyr 2. Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Rwyf yn gobeithio eich bod wedi mwynhau eich trip ar hyd yr A5 o Lundain i Caergybi, ond yn anffodus roedd rhai ohonoch wedi methu rhai o’r pentrefi. Wedi bod yn gwneud mwy na tri deg milltir yr awr yn ôl pob golwg! Ychydig mwy o bwyll y mis yma, wrth chwilio am y testunau sydd wedi ymddangos yn y chwilair tros y blynyddoedd.

Dyma atebion Hydref :-
Amwythig; Bethesda; Betws y Coed; Caergeiliog; Caergybi; Capel Curig; Froncysyllte; Gaerwen; Llangollen; Pentre Berw; Pentrefoelas; Porthaethwy.

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Mrs Mair Williams, Mynydd Llandegai; Elizabeth Buckley, Tregarth; Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas; Mair Jones, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Ynys Môn; Elfed Bullock, Bethesda; Glenys Roberts, Llanllechid; Gwilym Evans, Ynys Môn; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Olive Williams, Bethesda; Mrs Gwen Davies, Bethesda; Llewela O’Brian, Bangor Uchaf; Mrs Magdalen Jones, Bangor; Myfanwy Jones, Gaerwen; Helen Jones, Erw Las, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Merfyn a Laura Jones, Half Way, Bangor. **Enillydd Hydref oedd:-** Helen Jones, 43 Erw Las, Bethesda

Ysgol Bodfeurig

Wythnos cyn y gwyliau hanner tymor cafwyd wythnos gyffrous iawn yn yr ysgol sef wythnos iechyd, lles a ffitrwydd. Cafwyd wythnos gyfan o weithgareddau i hybu iechyd corfforol, meddyliol a llawer mwy.

Dosbarth Idwal

Cafodd dosbarth Idwal ddysgu am fwydydd iach wrth greu cibabs ffrwythau iachus. Yno cafodd pawb gymryd rhan mewn gwersi bale gydag un o'n rhieni sy'n ddawnswraig bale brofiadol. Yn ogystal â hyn cafwyd llawer o gyfle i ddysgu yn yr awyr agored ar y beics a'r offer mawr arall. Gorffennwyd yr wythnos gyda diwrnod annibendod i orffen y thema gyda digon o gyfle i wneud llanast, chwerthin a chael hwyl!



Dosbarth Tryfan

Bu plant dosbarth Tryfan yn brysur dros ben yn ystod yr wythnos yn dysgu llawer o sgiliau newydd. Cafodd pawb gymryd rhan mewn gwersi rygbi a yoga yn ogystal â dysgu am fwydydd iach. Roedd pawb wedi cael modd i fyw yn coginio pitsas iachus ac ysgrifennu cyfarwyddiadau sut i'w creu. Cafwyd amser hefyd i fyfrio mewn gwrs meddylgarwch a chyfle i greu poteli i dawelu'r meddwl.



Dosbarth Ogwen

Roedd yn bendant yn wythnos o brofiadau i ddosbarth Ogwen gan ddechrau gyda cyfle i fynd mewn zorbes! Roedd llawer o chwerthin wrth geisio taro ei gilydd drosodd ond heb os yr uchafbwynt oedd gweld Miss Davies ac Miss Emily yn cael tro! Cafwyd hefyd brofiad gwerthfawr iawn gyda dosbarth Tryfan mewn gwers cymorth cyntaf o dan arweiniad paramedig profiadol. Treuliwyd diwrnod hefyd yn yr ŵyl rygbi ym Methesda – cyfle i ddysgu sgiliau ac i gymysgu gyda plant eraill o'r ardal. Daeth diwedd glo i'r wythnos wrth i mam Owen ddod i mewn i goginio bwyd o Palestina gyda nhw.



Bu pob dosbarth hefyd yn ymdrechu rhedeg pob dydd gyda'r targed o filltir y dydd – da iawn i bob un fu'n dyfalbarhau a llwyddodd i redeg! Bu'r wythnos yn llwyddiant ysgubol ac mae bendant am fod ar galendr yr ysgol y flwyddyn nesaf.

BR 360

LEARN Y WE

Yn dilyn y newyddion cyffrous am lansio prosiect newydd **Bro360**, mae **Golwg** yn awyddus i benodi:

Ysgogydd x 2

Mae'r ddwy swydd hon yn allweddol i lwyddiant y cynllun - yn gweithio'n bennaf ym mhrif ardaloedd ffocws y prosiect, un yn Arfon a'r llall yn Aberystwyth a Gogledd Ceredigion.

Y SWYDD

- Sbarduno gweithgarwch yn yr ardaloedd dan sylw.
- Hyrwyddo'r prosiect yn y cymunedau lleol a thu hwnt.
- Ysgogi unigolion, mudiadau a grwpiau o bobl o bob math i gymryd rhan ac i gyfrannu at y gwefannau newydd.
- Meithrin perthynas â'r cymunedau a chyfranogwyr.
- Creu a chyfrannu deunydd addas i'r gwefannau bro.
- Cyfrannu syniadau at ddatblygu'r prosiect.

Y PERSON:

- Gallu i drin pobl yn effeithiol.
- Sgiliau cyfathrebu cryf.
- Diddordeb yn y We a'r cyfryngau cymdeithasol a phrofiad o'u defnyddio.
- Syniadau ffresh ac unigryw.
- Trefnus.
- Brwdfrydig a phenderfynol.

Lleoliad y Swyddi: Un yn swyddfa Golwg yng Nghaernarfon
ac un yn Aberystwyth/Llanbed

Cyflog: £20,000 i £23,000

Oriau gwaith: Llawn amser, 40 awr yr wythnos

Dyddiad Cau i wneud cais: 23 Tachwedd

Anfonwch lythyr cais. CV llawn ac enwau canolwyr.

Mwy o fanylion: owainschiavone@golwg.com / 01570 423 529

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Genedigaeth
Llongyfarchiadau cynnes iawn i Sian (gynt o 4 Erw Las) a Stifyn ar enedigaeth eu mab, Guto Huw, ar 22 Mehefin. Mae pawb o’r teulu wedi gwirioni hefo’r bychan, yn enwedig ei chwaer fawr, Gwenno Mai.

Priodas
Llongyfarchiadau mawr i Gwyn Williams (mab Huw a Margaret, 4 Erw Las) a Carys Williams. Cafwyd diwrnod arbennig i ddathlu eu priodas ar 15 Medi yn y Kimmel Manor, Abergele. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt gan y ddau deulu.

Diolch
Dymuna Alwenna Puw ddiolch o galon am yr holl gyfarchion, anrhegion, cardiau a galwadau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar. ‘Roedd y cardiau yn rhy niferus i allu cysylltu yn unigol â phawb. Diolch yn fawr.

Ysbyty
Cofion cynnes a gwellhad buan at sawl un sy’n sâl ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Daeth yr isod i sylw’r Llais:- Mrs. Lillian Hughes, Erw Las; Mr. Carl Evans, Hafan; Mr. Dewi Hughes, Glan Ffrydlas; Mrs. Margaret Jones, Pen y Graig.

Cartref Newydd
Croeso cynnes iawn i’w cartref

newydd yn Ffordd Ffrydlas i Mr. a Mrs. Aled Parry a’r plant.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at y teuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:-

Mrs. Margaret Jones a’r teulu, Pen y Graig, a gollodd ei brawd, Tony, yn sydyn yn ei gartref yn Stryd John.

Mr. a Mrs. Keith Evans a’r teulu, Rhes Pen y Bryn. Bu farw mam Jackie ym Mangor ar 19 Hydref, sef Mrs. Sylvia Jones.

Marwolaeth
Yn Ysbyty Gwynedd ar 17 Hydref, bu farw Mr. Alun David Williams, 3 Frondeg, yn 66 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs. Gloria Williams, cefnder Ruth a brawd yng nghyfraith Janet a Howard. ‘Roedd Alun yn ŵr tawel a pharchus, yn perthyn i’r Clwb Bowlïo, ac yn aelod selog o Gôr Meibion y Penrhyn a Chôr Ysbyty Gwynedd. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Llun, 29 Hydref yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chi Gloria, a’r teulu i gyd yn eich colled fawr.

Gorffwysfan
Gair i atgoffa’r aelodau i roi eu henwau i lawr yng Ngorffwysfan ar gyfer y wibdaith i Landudno a’r Cinio Nadolig ar ddydd

Gwener, 14 Rhagfyr. Cychwyn ger y Gofeb am 8.30yb.

Siop Newydd ar y Stryd Fawr
Mae siop bwydydd cyflawn newydd wedi agor yn rhif 68 Stryd Fawr. Mae’r siop wedi symud o Carneddi, ble bu ers 1989. Mae’r siop wedi cael ei reoli gan wirfoddolwyr ers y diwrnod cyntaf. Mae’r siop ar agor bob dydd Iau, Gwener a Sadwrn. Mwy o wybodaeth ar y tudalen Facebook yma: https://www.facebook.com/groups/699406440150869/?fref=mentions&hc_location=group

Eglwys Crist, Glanogwen
Gwasanaethau
Cynhelir gwasanaethau yn yr eglwys fel a ganlyn:
Pob Bore Sul:
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb
(Os 5ed Sul yn y mis –
Gwasanaeth ar y cyd gydag eglwysi St. Mair, Mynydd Llandegai a St Cedol, Pentir)
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog. Croeso cynnes i bawb.
Bore Sul, 2 Rhagfyr –
Gwasanaeth arbennig i ddathlu Sul Adfent – am 11 y bore.

Codi arian
Y digwyddiad nesaf i godi arian fydd Te Nadolig yn y Douglas Arms, brynhawn dydd Gwener, 7 Rhagfyr o 2 hyd 4 y prynhawn. Tocynnau yn £5, i’w cael gan aelodau o’r eglwys. Dewch yn llw!

Yr Eglwys Unedig
Mae’r Ysgol Sul yn brysur gyda’r gweithgareddau ac yn ymarfer ar gyfer eu Gwasanaeth Nadolig, ac yn mwynhau. Mae’r baned ar foreau Sul ac Iau yn cael nifer dda’n dod i gymdeithasu. Ceir nifer dda’n mynychu’r oedfaon o hyd a diolch iddynt am eu presenoldeb. Mwynheir y gwasanaethau i gyd.
Mae’r dynion yn brysur yn fân drwsio ar foreau Iau – diolch iddynt.
Cafwyd oedfa Gymun dan ofal y Parchedig Gerallt Ll. Evans,

nos Sul 4 Tachwedd.
Defnyddir yr adeiladau gan gymdeithasau eraill.
Mae Côr y Dyffryn yn ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol.

Cyhoeddiadau
Tach 18fed: Y Parchedig Pryderi Ll. Jones
Tach 25ain: Y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts
Rhagfyr 2il: Cymun Cristnogol
Rhagfyr 9ed: Oedfa Nadolig y Plant, 10:30yb, Mr Donald Pritchard am 5yh

Mae teulu Tŷ Capel wedi cael babi newydd mab bach i Nick a Sioned a brawd bach i’r fechan. Dymuniadau gorau iddynt.

Sefydliad y Merched Carneddi
Rhoddodd ein llywydd groeso cynnes i’r aelodau i gyd i Gyfarfod Blynnyddol a Swper Cynhaeaf y Sefydliad – ond mewn lle gwahanol i’r arfer oherwydd y tân oedd wedi bod yng Nghefnfaes. Cawsom groeso i gynnal ein cyfarfod yn festri Capel Jerusalem, ac roedd yn gynnes yno a popeth yn hwylus at ein defnydd. Diolch yn fawr i’r blaenoriaid am eu caniatâd i’w ddefnyddio. Yr oedd ychydig o ymddiheuriadau, ac mae ein cofion yn mynd at y rhai oedd yn absennol am resymau gwahanol.

Yn ystod yr wythnos yr oedd un o’n aelodau yn dathlu penblwydd go arbennig yn 90 oed, sef Nancy Thomas. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod wrth eich bodd gyda’r teulu.

Darllenwyd y llythyr misol a thrafodwyd ei gynnwys. Aeth Gwyneth ymlaen i ddarllen cofnodion mis Hydref. Rhoddodd grynoded o’r flwyddyn 2018, ac ‘roedd pawb yn cytuno ein bod wedi cael blwyddyn ddiddorol dros ben gydag amrywiaeth o westeion a’u doniau gwahanol. Rhoddodd Rosemary grynoded o’r fantolen ariannol, ac ‘roedd pawb yn cytuno â’i chynnwys. Diolch Rosemary!



Mrs. P. Ann Jones, cymhorthwraig y sefydliadau, oedd y wraig wadd. ‘Roedd yn bresennol i oruchwylio’r bleidlais am Lywydd gan fod Rita Bullock yn ymddeol o’r swydd. Etholwyd Nicola Hughes yn ei lle. Diolchodd Rita i’r aelodau i gyd am eu cefnogaeth ac i Gwyneth, Rosemary a Bess am eu hymroddiad cyson drwy y flwyddyn. Yn ogystal, mae ein diolch ym mynd at y merched fu’n gyfrifol am y baned bob mis, a’r rhai fu’n rhoi y gwobrau raffl.

Diolchodd Rita am swper blasus dros ben oedd wedi ei baratoi gan y pwyllgor, a hefyd i Mrs P. Ann Jones am ei gwaith hithau. Enillydd y raffl oedd Annwen, yn rhoddedig gan Gwyneth. Mae Rita am ddiolch yn fawr iawn i bawb, ac yn dymuno yn dda i Nicola fel llywydd newydd y sefydliad.

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB.
☎ 01248 601318
E-bost:
carys16@hotmail.com

Bore Coffi
Cynhaliodd Linda, Rhyd-y-Groes fore coffi yn ddiweddar a chasglwyd £256.57 ar gyfer Cronfa Macmillan. Diolch i bawb a gefnogodd.

Damwain eto!
Mae sawl damwain wedi bod yn yr ardal yn ddiweddar gyda moduron yn goryrru. Un noswaith tarodd car oedd wedi ei ddwyn giât hen fynwent y Plwyf gan ei dinistrio’n llwyr. Rhoddodd y lladron y car ar dân gan achosi mwy o ddifrod a bu rhaid galw’r gwasanaethau brys. Bydd y Cyngor Cymuned yn adnewyddu’r adwy i’r fynwent a gofynnir i’r ardalwyr fod yn amyneddgar tra bod yr Heddlu a’r cwmni yswiriant yn delio gyda’r mater.

Diolch i Glerc Cyngor Cymuned Pentir a Meurig Williams am sicrhau bod mynedfa ar droed i’r fynwent.

‘A fo ben bid bont’
Mae cynllun i adeiladu pont arall dros y Fenai gyda’r gwaith yn cychwyn yn 2021. Mae syniad gŵr o Bentir, Benji Poulton, wedi derbyn cryn sylw yn ddiweddar. Gweledigaeth Benji, sy’n beiriannydd siffl, ydy adeiladu piler anferth yn codi o’r dŵr. Byddai’r piler yma ar ffurf cawr, sef Bendigeidfran gyda’i freichiau yn codi uwch ei ben ac yn dal y ffordd i fyny.

Mae Benji yn dadlau byddai’r dyluniad yn anfon neges ddiwylliannol bwysig a fyddai hefyd yn cyfrannu at harddwch yr ardal ac yn denu ymwelwyr. Mae’n syniad gwreiddiol, yn siŵr o rannu barn ond yn llawn haeddu ei ystyried.

Eglwys St. Cedol, Pentir
Clwb 100 Mis Hydref 2018
1af Rhif 37 Ian Russell, Llandegai
2ail Rhif 17 E Valerie Amos, Bethesda

3ydd Rhif 47 Ian Williams, Rhiwlas

Bingo
Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Noson Bingo yn y Ganolfan, Glasinfryn ar y 16 Tachwedd am 7yh, Mae Croeso i chwi ymuno â ni am noson o hwyl.

Ffair Nadolig
Bydd ein Ffair Nadolig eleni ar brynhawn Sadwrn 24 Tachwedd am 1.30yh yn Y Ganolfan, Glasinfryn. Bydd amrywiol stondinau a lluniaeth, a Bingo i derfynu y prynhawn. Croeso cynnes i bawb.

Gwasanaethau’r Sul
Mae’r gwasanaethu am 9.45yb 18 Tachwedd: Cymun Bendigaidd
25 Tachwedd: Boreol Weddi
2 Rhagfyr: Cymun Bendigaidd
9 Rhagfyr: Boreol Weddi
15 Rhagfyr: Cymun Bendigaidd

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau ag i ddilyn am banad a sgwrs.

Ymunwch â Chyngor
Ymddiriedolwyr, Cyngor
Celfyddydau Cymru

Does dim byd gwell na gweld ein cymunedau yn fwrlwm o ddigwyddiadau celfyddydol. Peidiwch â gadael i neb ddweud wrthyhych chi mai rhywbeth uchel-ael yw’r celfyddydau; mae tudalennau ein papurau bro yn dangos fel arall.

Yn ddramâu lleol, eisteddfodau ffermwyr ifanc, clybiau gweu a gwnïo a straeon gwych am blant yn llwyddo wrth ganu ac actio - mae enghreifftiau rif-y-gwlith o bwysgrwydd y celfyddydau.

Drwy ddod â phobl ynghyd, mae gweithgareddau fel hyn yn rhan hollbwysig o greu a chynnal cymuned. Maent hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a

chorfforol.

Fe ddylai pawb yng Nghymru allu profi’r celfyddydau a hoffwn ni ichi helpu’r Llywodraeth drwy roi eich enw ‘mlaen i fod ar ein Cyngor Ymddiriedolwyr.

Pobl fel chi rydym ni eisiau i drïo am y gwaith yma. Dylai pob corff cyhoeddus gynrychioli cymunedau ac adlewyrchu ffyrdd gwahanol o fyw fel eu bod yn gallu deall pobl Cymru ac er mwyn gwneud penderfyniadau gwell.

Os oes gennych chi ddiddordeb, gallwch ddod o hyd i ffurflen gais drwy deipio “Penodiadau Cyhoeddus” i mewn i’r we.

Y dyddiad cau yw **22 Tachwedd 2018.**

Welsh
Whisperer

Cawl, Cân a
Chomedi

GYDA CHWPANED O GAWL A BAP
BARA

NOS SADWRN 24 TACHWEDD
2018

DECHRAU AM 7.30 Y.H.
CLWB CRICED A BOWLIO
BETHESDA

TOCYNNAU £7.50 NEU £5.00 I AELODAU
AR GAEL I'W ARCHEBU O'R CLWB
ORIAU AGOR Y CLWB - IAU 8-11YH
GWENER 7-11YH
SADWRN 7-11YH
RHIF FFÔN: 01248 600833/07919288164

Ysgol Dyffryn Ogwen

Cyngor Ysgol

Llongyfarchiadau i aelodau'r cyngor ysgol ar gael eu hethol i gynrychioli eu dosbarthiadau cofrestru. Mae'r cyfarfod cyntaf wedi digwydd gydag Esme Crowe yn cadeirio, a Cadi Roberts yn ysgrifenyddes. Mae tymor prysur iawn o flaen y grŵp yma gyda thrafodaethau am wobrwyo, dysgu ac addysgu, gwisg ysgol a hyrwyddo hawliau pobl ifanc ar y gweill.

Noson Agored

Cynhaliwyd Noson Agored flynyddol yr ysgol nos Fawrth, 16 Hydref, i rieni disgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6. Roedd yn braf iawn gweld yr ysgol yn llawn o ddarpar rieni a disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Pen-y-bryn, Rhiwlas, Tregarth a Llandygai. Yr oedd canmoliaeth fawr i'r noson gan y rhieni a fu'n bresennol a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen.

Wythnos Sgiliau

Mis Hydref cynhaliwyd wythnos sgiliau i ddisgyblion yr ysgol. Fel rhan o'r wythnos bu blwyddyn 7 yn aros noson yn Rhyd Ddu ac yn cerdded i fynyr Aran. Llwyddodd pob disgybl yn eu hymdrechion i ddangos dyfalbarhad a gwydnwch - yn enwedig dosbarth Ffrancon fu'n brwydro'n erbyn y tywydd gwyntog a gwlyb iawn! Treuliodd blwyddyn 7 weddill yr wythnos yn datrys problemau amrywiol ac yn cydweithio er mwyn dod i adnabod ei gilydd yn well.



Disgyblion blwyddyn 7 yn mwynhau

Taith Gerdded Noddedig

Ar fore dydd Iau, 18 Hydref cafodd holl ddisgyblion blwyddyn 7-10 a'r chweched dosbarth eu cludo i fyni at Lyn Ogwen er



Rhai o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen ar y daith gerdded

mwyn cwblhau taith gerdded noddedig ar hyd y Lôn Las yn ôl i'r ysgol. Roedd y tywydd yn fendigedig ac fe gafodd y staff a'r disgyblion hwyl tra'n cerdded. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi noddi disgyblion. Bydd yr arian yn mynd tuag at gostau cystadlu mewn amrywiol chwaraeon ac at y wythnos sgiliau yn yr Haf.

Senedd Ieuenctid Cymru

Llongyfarchiadau i Betsan Griffiths sydd wedi bod yn llwyddiannus i fod yn enwebai ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru. Bydd cyfnod o bleidleisio ym mis Tachwedd i weld pwy fydd yn cael lle yn y Senedd. Dymunwn bob lwc iddi yn ei hymgais.

Pêl-Rwyd

Llongyfarchiadau gwresog i Erin Davies blwyddyn 11 ar gael ei dewis i chwarae pêl-rwyd i garfan Arfon mewn treialon yn ddiweddar. Roedd dros 60 o ddisgyblion eraill yn bresennol yn y treialon ac mae Erin wedi llwyddo i gyrraedd treialon Eryri yn chwarae ymosodwr asgell (WA) a chanolwr (C).

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd blwyddyn 11 fu'n chwarae yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch. Cafwyd buddugoliaeth o 14-7 ar gyrtiau Plas Ffrancon. Yn anffodus, colli o 10-5 oedd hanes tîm blwyddyn 10 yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones, ond gydag ychydig mwy o ymarfer mi all y safon fod yn addawol iawn. Daliwch ati genod!



Hwmws

- Cynhwysion
- Tun 410g o ffacbys (*chick peas*) mewn dŵr halen.
 - 2 ewin o arleg.
 - 2 lwy de o tahini.
 - 2 lwy fawr o iogwrt Groegaidd.
 - Sudd 1 lemn.
 - 60ml o olew (olew olewydd pur, e.e. *Virgin Olive Oil*).
 - 2 lwy de o cumin.
 - Halen a phupur du.

Dull

Rhowch y pys a 75ml yn unig o'r dŵr halen, a phopeth arall, mewn prosesydd. Cymysgwch yn dda tan bydd y cwbl yn feddal a llyfn. Tywalltwch yr olew olewydd yn ysgafn dros yr hwmws. Wedyn, rhoi ychydig o bupur cayenne. Rhowch faint rydych ei angen yn eich pryd mewn powlen, a beth bynnag sydd ar ôl mewn jar bach gyda chaead tun a'i gadw yn yr oergell.

Grant Loteri i Harddu Dyffryn Ogwen

Mae Balchder Bro Ogwen wedi derbyn grant o £600 gan Loteri Cod Post y Bobl (PPL) i harddu'r Dyffryn. Mae dwy ran i'r prosiect hwn. Mae rhan o'r arian eisoes wedi'i wario ar brynu bylbiau cennin Pedr ac mae'r rhain wedi'u plannu ledled y Dyffryn. Mae'r gwirfoddolwyr wedi bod allan lawer o weithiau dros yr wythnosau diwethaf, yn plannu'r bylbiau ar leoliadau ar hyd Lôn Las Ogwen ac ar wahanol leoliadau ym Methesda, Rachub, Tregarth, Mynydd Llandygai, Talybont (yn y llun) ac wrth ymyl yr A5 ger Llys y Gwynt. Ymunodd rhai o ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen â ni hefyd i blannu rhai yn nhiroedd yr ysgol.

Ail ran y prosiect fydd datblygu gardd gymunedol o flaen Capel Jerusalem a thros y misoedd nesaf bydd arian grant yn cael ei wario ar brynu a phlannu nifer

o lwyni newydd. Bydd y prosiect cyfan yn gwella golwg canol Bethesda a Lôn Las Ogwen, gan annog ymwelwyr i aros a mwy o bobl leol i gerdded neu fynd am dro ar feic.

Mae Pwyllgor Balchder Bro Ogwen yn ddiolchgar iawn i Loteri Cod Post y Bobl am y grant i ariannu'r prosiect. Rydym yn diolch i Paul Rowlinson am wneud y cais am y grant, i Neville Hughes am brynu'r bylbiau a threfnu'r sesiynau plannu, i ddisgyblion Ysgol Dyffryn ac i'r holl wirfoddolwyr eraill am roi o'u hamser i blannu'r bylbiau. Edrychwn ymlaen at weld y cennin pedr yn blodeuo. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Bwyllgor Capel Jerusalem am gytuno i brynu a phlannu'r llwyni yn yr ardd o flaen y capel ac edrychwn ymlaen at weld ffrwyth eu llafur yn y gwanwyn.



Marchnad Ogwen

Wnaeth rhyw storm o'r enw 'Callum' effeithio ar gefnogwyr Marchnad Ogwen? Naddo! Er gwaetha'r gwynt a glaw trwm, fe wnaeth nifer dda daro i mewn i'n cefnogi ym Marchnad Hydref - ambell un yn dra gwlyb hefyd! Diolch o galon i chi, ar ran pawb yn y Farchnad.

Fe gawsom Farchnad ddiddorol iawn mis Hydref gyda Maggie o'r stondin sawsus yn rhoi arddangosfa goginio. Fe wnaeth Maggie ddanteithion blasus dros ben gan ddefnyddio cynnyrch y Farchnad a'u plethu gyda'i sawsus arbennig hi i greu bwydydd Cymreig / Affricanaidd. Roedd cyfle i bobl flasu'r bwydydd a mawr oedd y canmol. Gobeithio y cawn drefnu arddangosfa goginio arall yn y flwyddyn newydd. Diolch Maggie.

Mae Marchnad Nadolig nos Fercher, 21 Tachwedd o 5 tan 8 o'r gloch. Mae hon yn noson boblogaidd iawn gyda naws arbennig. Bydd y Boncathod yn canu carolau a chasglu arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd 'Bois y Bloda' yn ôl ar y noson yma (a hefyd ym Marchnad 8 Rhagfyr). Dechrau eich siopa Nadolig.....

.... a gorffen ym Marchnad 8fed o Ragfyr! 'Rydym yn edrych ymlaen i groesawu Hogia'r Bonc i'n diddanu - yn siopwyr a stondinwyr.

Cofiwch, os ydych yn defnyddio eich cardiau glas yn y Farchnad, byddwch yn cael cyfle i ennill gwobr ym Marchnad Rhagfyr. Cofiwch roi eich enw ar y cerdyn!

Yr NSPCC sydd â'r Stodin Elusen yn y Farchnad nos, a Chyfeillion Ysbyty Gwynedd ym Marchnad Rhagfyr.

Dim ond Marchnadoedd Mawrth ac Awst sydd ar gael trwy 2019!

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook. Croeso cynnes.



Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Priodas

Ar 1 Medi priododd Elen Williams a James Lillie, 15 Ffordd Llanllechid, Llanllechid yng Ngwesty Carreg Bran, Llanfairpwll. Llongyfarchiadau mawr gan y ddau deulu a'ch ffrindiau i gyd.



Diolch

Mae Helen Wyn Williams yn awyddus iawn i fynegi ei diolch i bawb sydd wedi bod yn garedig yn dilyn ei gwobrwyo â Medal Gee yn ddiweddar. Mae hi wedi derbyn cardiau, blodau ac anrhegion eraill i'w llongyfarch gan lawer o gyfeillion ac mae hynny wedi bod yn achos llawenydd mawr iddi. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich caredigrwydd.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd y clwb uchod bnawn Mercher, 24 Hydref. Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod a rhoddwyd croeso arbennig i Margaret Swift oedd wedi ymuno â ni am y tro cyntaf. Gyrrwyd ein cofion at Rhiannon sydd wedi cael clun newydd, ac at Myfanwy sydd adref rŵan yn y Gerlan. Dymunwyd yn dda i Glenys Roberts oedd wedi cael ei phen-blwydd ers i ni gyfarfod ddiwetha', yna cyflwynwyd ein siaradwr gwadd sef Andre Lomozik. Mae Andre yn gyfarwydd iawn i ni ac yn barod iawn ei gymwynas. Cawsom bnawn difyr iawn ag Andre yn dangos lluniau o bob math o'r ardal, adeiladau, pobl, bws D&G Rachub, Purple Motors, Sioe Amaethyddol a llawer mwy. Yna dangosodd luniau gwahanol leoedd a ninnau yn gorfod dyfalu lle a beth oeddynt. Rhoddwyd y raffl gan Rita ac fe enillwyd hi gan Glenys Rowlands. Gwnaethpwyd y

te gan Arfona a Margaret Owen. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 21ain.

Calan Gaeaf

Ar waetha'r tywydd, bu nifer o wrachod bach ac ysbrydion brawychus yn crwydro strydoedd Llanllechid a Rachub ar nos Calan Gaeaf. Gwelwyd sawl tŷ wedi gosod pwmpenni yn eu ffenestri, a bu'r plant yn lwcus iawn o bobl hael yr ardal yn llenwi eu basgedi efo da da's a melysion.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus iawn i Gwenno Llwyd Beech oedd yn 9 oed ar Hydref 14eg, a diolch i bawb am yr anrhegion a'u caredigrwydd.

Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Laura a Tom ar achlysur eu priodas yn Ynys Galliano, Canada. Mae Laura yn ferch i Wendy a Ron, Bron Arfon, Rachub. Fe aeth Wendy a Ron i'r briodas yn ystod mis Awst. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonynt i'r dyfodol yng Nghanaada.

Ffair Llan

Unwaith eto eleni, daeth y ffair a'i holl liw a chyffro i Lanllechid. Mae'n achlysur llawn cynnwrf sy'n dod â'r trigolion lleol at ei gilydd i fwynhau. Enillwyd sawl pysgodyn aur, ac roedd arogl y bwyd a'r candi fflos wedi denu tyrfa dda yno.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Lena Jones-Parry [Tandderwen gynt] ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i'r Parch Dafydd Coetmor Williams a Mrs Helen Williams am y gwasanaeth hyfryd, i swyddogion Capel Carmel am eu cymorth, ac i Mr Stephen Jones am ei drefniadau hynod drylwyr.

CLWB HANES RACHUB, CAELLWYNGRYDD A LLANLLECHID.

Daeth cynulleidfa helaeth ynghyd i ysgoldy Capel Carmel, i wrando ar gyflwyniad hynod ddiddorol gan Mrs Brenda Wyn Jones, Tregarth. Roedd yn trafod John Williams, Archesgob Iorc, neu John Iorc, ac yn wir cafodd y gynulleidfa eu gwefreiddio gyda'r hanes.

Un o deulu Cochwillan oedd John Williams [1582-1650], bachgen tu hwnt o beniog a galluog a gafodd ysgoloriaeth i astudio yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt pan ond yn 16 oed. Roedd wedi ei drwytho mewn Lladin a Chymraeg, a doedd ganddo ddim Saesneg pan aeth i'r coleg, ond llwyddodd i feistrol'i'r iaith ar ei liwt ei hun, yn ogystal ag wyth o ieithoedd eraill!

Dringodd yn uchel drwy'r rhengoedd eglwysig, nes dod yn diwtor yn ei hen goleg yng Nghaergrawnt. Clywodd y Brenin Iago I ef yn pregethu, a gwnaeth argraff fawr iawn arno, nes daeth y ddau yn ffrindiau agos.

Wedi marwolaeth y Brenin, bywyd digon cythryblus gafodd John Williams, gan nad oedd y Brenin newydd yn rhy hoff ohono. Collodd swyddi, cafodd ei garcharu nifer o weithiau, ac roedd yng nghanol sawl ffrae wleidyddol. Ond roedd y Brenin Siarl mor anwadal, rhyddhawyd John Williams a'i wneud yn Archesgob Iorc.

Gwyddwn, yn lleol, am ei gysylltiad â Phont Tŵr, ac am hanes ei ysbryd, ond mae'r manylion a glywyd gan Mrs Brenda Wyn Jones am ei hanes yn anhygoel, ac yn llawer rhy niferus i'w nodi yma. Diddorol oedd gweld lluniau ohono, copi o lythyr yn ei lawysgrifen, a 2 sbardun o'i eiddo! Diolch i Rhian Llewelyn Jones ac Ann Williams am allu benthycu rhai o'r rhain o Eglwys Llandygai, ac am eu cyfraniad gwerthfawr i'r noson. Yn Eglwys Llandygai mae John Williams wedi'i gladdu, a cheir cofeb iddo yno. Diolch, Brenda, am roi syniad i ni o'r bywyd diddorol a chythryblus a gafodd John Iorc!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Tachwedd 28, 'Ddoe yn y Dyffryn' [rhan 3] gan Dr. John Elwyn Hughes.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid.

Nos Fercher, Tachwedd 28
am 7 o'r gloch
yn Festri Capel Carmel.
'Ddoe yn y Dyffryn'
[rhan 3]
Dr. John Elwyn Hughes
CROESO CYNNES!

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)

Tachwedd 18: Mr. Dafydd Iwan.
Tachwedd 25: Y Gweinidog.
Rhagfyr 2: Y Gweinidog. (Cymun).
Rhagfyr 9: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Rhagfyr 16: Oedfa Nadolig

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Pysur bob nos Wener am 6.30.
Te Bach. Dydd Llun, 19 Tachwedd a 10 Rhagfyr, 2.30 - 4.00yp.
Dosbarth Gwau ar ddydd Llun, (2.00 - 4.00yp), 26 Tachwedd; 3 Rhagfyr (Te Nadolig); 17 Rhagfyr.
Croeso cynnes i bawb.
Y Diolchgarwch

Daeth yn fis Hydref eto, ac 'roedd hi'n braf cael rhoi diolch am y Cynhaef gyda'r plant a'r bobol ifanc. Gwnaeth bob un ohonynt eu gwaith yn ardderchog ac 'roedd y canu yn hwyliog a brwdfrydig. 'Roedd cynulleidfa

gref yn bresennol, yn cynnwys rhieni, cyfeillion ac aelodau i gefnogi'r ifanc a rhoi diolch i Dduw am gynhafiaeth eto'r flwyddyn hon. Roedd casgliad y gwasanaeth i'w roi tuag at Apêl Madagascar Undeb yr

Annibynwyr Cymraeg, sydd yn rhannol er cof am y cenhadon o Gymru a deithiodd i Fadagascar 200 mlynedd union yn ôl, sef David Jones a Thomas Bevan, Neuaddlwyd. Cyfanswm y casgliad oedd £151.00.



Dau lun o'r plant lleiaf yn canu.

Common Voice - A wnewch chi gyfrannu tuag at Common Voice Cymraeg?

Project Common Voice yw'r ymgais i greu data rhydd ar gyfer adnabod lleferydd, fel bod peiriannau yn gallu cofnodi'r hyn rydych yn ei ddweud wrthyn nhw, ei ddeall ac ymateb iddo.

Mae hyn yn galluogi darparu rhaglenni a pheiriannau ar gyfer y deillion a'r anabl, cynorthwyyr personol, llywio mewn ceir, ac ati. Mae'r rhain eisoes yn bodoli yn Saesneg, yr her nawr yw eu cael yn Gymraeg.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o Gymru, a'r byd i gyfrannu. Gorau po fwyaf o amrywiaeth mae'r peiriant yn ei gael, y

gorau y bydd yn gallu eu dehongli.

Gan fod offer Common Voice ar wefan ac ap mae modd cyfrannu yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd. Mae modd cyfrannu drwy ddarllen brawddegau a phytiau a thrwy ddilysu lleisiau pobl eraill. Mae'r ddwy elfen yn bwysig.

Mae modd defnyddio eich cyfrifiadur eich hun os oes ganddo feicroffon a chlustffonau/ uchelseinydd neu yn gallu cysylltu rhai iddo. Mae modd hefyd defnyddio'r ap ar gyfer iPad neu iPhone diweddar.

Mae Common Voice Cymraeg yn bartneriaeth rhwng Mozilla Foundation, gwneuthurwr y porwr Firefox, Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a Meddal.com.

Mae modd cyfrannu at Common Voice Cymraeg yn: voice.mozilla.org/cy/new a'r ap iPhone neu iPad o'r App Store yn: <https://itunes.apple.com/us/app/project-common-voice-by-mozilla/id1240588326>

Mae rhagor o wybodaeth a chyfarwyddid i'w cael ar wefan Meddal.com

Nyth Y Gân

Y Faenol Fawr, Bodelwydden

(Ymweliad yng nghwmni Ieuan Wyn a arferai aros yno'n hogyn pan oedd ei ewythr a'i fodryb yn berchnogion ac yn ei ffermio.)



Yn brifardd ef a brofodd y Faenol
Hynafol a'i denodd;
I gwr' â'i deulu garodd
Aeth i fan oedd wrth ei fodd.

Yn ei fyd bu'r Faenol Fawr a'r hanes
Mor hynod o werthfawr;
Awn ni i fyny'r grisiau'n awr
Yn troelli rhwng y trillawr.

Hen dderwen, hi a ddaru roi yno
Hir hanes dodrefnu,
A choed mewn oed heb nadu
Neb i'w gweld a'u mwynhau.

Mynnodd y seiri meini i'r Faenol
Droi'r fan i'w drysori,
A'r hyn a wnaeth y rheini
Yno'n awr sy'n wych i ni.

Estyn fu'r hirion drawstiau, a gorwedd
I gyrraedd y waliau,
A llafur seiri llifiau
Yno'n gain, i gyd yn gwau.

Heddiw y mae'r hanesyddol bethau
Am byth yn bresennol;
Siwrneiau pensaernïol
Ei ddoe yn awr a ddaw'n ôl.

Dafydd Morris



Cludiant Cymunedol Dyffryn Ogwen

Ar 23 Hydref, trefnodd Partneriaeth Ogwen ddiwrnod arbennig i drafod Cludiant Cymunedol yn Nyffryn Ogwen. Fel y gwychoch, mae'r gwasanaeth bysiau lleol wedi bod yn anghyson a dweud y lleiaf dros y misoedd diwethaf a bwriad y Bartneriaeth oedd dod â phawb at ei gilydd i drafod y problemau ond hefyd i edrych am atebion creadigol. Yn rhan o'r drafodaeth yn ystod y dydd oedd Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru, SP Energy Networks, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Open Energy Monitor a swyddogion Cyngor Gwynedd. Yn ogystal â thrafod yr heriau i bobl leol wrth gael mynediad at gludiant cyhoeddus, trafodwyd y problemau parcio i fyny ger Bwthyn Ogwen ac hefyd y potensial sydd yna i ddatblygu cynllun cludiant cymunedol – yn ddelfrydol wedi ei bweru gan drydan lleol adnewyddadwy. Roedd Trystan Lea a Glyn Hudson o Lanberis wedi dod a'u cerbydau trydan efo nhw i'w arddangos a daeth trigolion lleol eraill a'u ceir Tesla draw hefyd. Bwriad Partneriaeth Ogwen yn awr yw parhau i ymgynghori gyda'r gymuned ynglŷn â chludiant cymunedol yn y Dyffryn ac mae holiaduron wedi



eu dosbarthu a mae holiadur ar-lein ar wefan www.ogwen.org Ar sail y dystiolaeth, byddwn yn cydweithio â'r asiantaethau perthnasol i fynd i'r afael â'r problemau a godwyd. Os hoffech drafod y gwaith yma, cysylltwch â Meleri yn swyddfa'r Bartneriaeth, 26 Stryd Fawr, Bethesda 01248 602131 partneriaeth@ogwen.org



Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

(Dwy sesiwn o fwynhad pur!)

Nos Wener, 16 Tachwedd 2018 am 6.00yh
yn Neuadd Ogwen

Seremoni'r Orsedd . Cystadleuthau'r Corau
Unawdau Lleisiol ac Offerynnol
a Chystadleuthau i Ysgolion Uwchradd



Sadwrn, 17 Tachwedd 2018 am 10.00yb
yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwledd o Gystadleuthau Cynradd:
Canu, Llefaru, Dawns, Celf a Chrefft